WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Archwiliadau Technoleg Cyfathrebu – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**

Cyhoeddwyd: Tachwedd 2016

Cyfeirnod y ddogfen: 324A2016

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o’r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai’r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi’r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â’r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol.  Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Wales - swyddoggwybodaeth@archwilio.cymru.

Pauline Suchy a gyflawnodd y gwaith hwn.

# Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael â materion a godwyd mewn adolygiadau TGCh blaenorol, ond gan y bu'r cynnydd yn arafach mewn rhai meysydd, ac oherwydd newidiadau trefniadol diweddar a gwaith i uwchraddio'r stwythur TG, mae angen cymryd rhai camau pellach.


Crynodeb

Y Cefndir 4

Ein prif ganfyddiadau 5

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Ansawdd data 7

The Information Governance Framework is not yet fully implemented following management restructure in 2015, but is better placed to assure the Board on data quality 7

Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes 14

Mae gwaith cynllunio safonedig ar gyfer adfer ar ôl trychineb (AT) a pharhad busnes (PB) yn datblygu, ond nid yw'r cynlluniau PB wedi'u sefydlu gystal mewn rhai adrannau clinigol, a phrin yw'r profion ar gynlluniau AT a PB 14

Trefniadau Caldicott 27

Mae trefniadau llywodraethu Caldicott wedi gwella, ond ceir gwendidau heb eu datrys yng nghyswllt cynllunio olyniaeth, adnoddau, meincnodi a nodi ffynonellau gwybodaeth sydd yn galluogi adnabod cleifion 27

Gwybodaeth wrth gefn 37

Mae trefniadau wrth gefn wedi cael eu diwygio er mwyn adlewyrchu'r amgylchedd rhithiol newydd, a bydd y catalog gwasanaeth newydd yn ychwanegu at hyn, ond nid oes unrhyw drefniadau wrth gefn ar gyfer data a ddelir ar ddyfeisiau meddygol 37

Atodiadau

Atodiad 1 – Argymhellion sydd yn weddill o adolygiadau TGCh 2012 a 2013: prif faterion 41

Atodiad 2 – Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd 44

# Adroddiad cryno

## Cefndir

1 Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru sawl adolygiad blaenorol ynghylch agweddau ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ym Mwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2012 a 2013. Ceir crynodeb o'r casgliadau ynddynt yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: Prif gasgliadau o adolygiadau TGCh blaenorol

| Enw'r adolygiad (blwyddyn archwilio) | Prif gasgliadau |
|---|---|
| Ansawdd data (2012) | Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau digonol ar gyfer ansawdd data; fodd bynnag, dengys ein dadansoddiadau data amrywio o ran effeithiolrwydd wrth sicrhau cywirdeb data cyson. |
| Adfer ar ôl Trychineb (AT) TG a Pharhad Busnes (PB) (2012) | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud paratoadau da o ran trefniadau AT a PB TGCh, ond gallai gryfhau'r trefniadau hyn mewn rhai meysydd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r meysydd hyn ac wrthi'n cymryd camau gwella. |
| Trefniadau Caldicott (2012) | At ei gilydd, mae trefniadau Caldicott y Bwrdd Iechyd yn dda, ac yn mynd rhagddynt yn dda. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r gwendidau sy'n bodoli, yn enwedig o ran hyfforddiant staff a gwybodaeth cleifion. |
| Gwybodaeth Wrth Gefn (2013) | Mae llawer o'r mesurau rheoli y byddem yn disgwyl eu gweld ar waith o fewn y Bwrdd Iechyd, ond ceir rhai gwendidau. Yn arbennig, ni cheir cytundeb na threfniadau ffurfiol i gyfathrebu ynghylch newidiadau i weithdrefnau wrth gefn bob tro, ac mae'r cofnod a gedwir o brofion AT rheolaidd yn anghyflawn. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a gweithredu mesurau rheoli ychwanegol yn y meysydd hyn. |

2 Nod yr adolygiad dilynol hwn oedd ateb y cwestiwn canlynol: **'A yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r prif faterion a'r argymhellion a amlygwyd yn ein hadroddiadau TGCh blaenorol'?**

3 Wrth gynnal ein hadolygiad dilynol, rydym wedi ystyried y newidiadau i'r bensaernïaeth technoleg gwybodaeth ers ein hadolygiadau TGCh cynharach, a'r gwaith i ad-drefnu'r Bwrdd Iechyd a'i drefniadau rheoli yn 2015.

# Ein prif ganfyddiadau

4 Daethom i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael â materion a godwyd mewn adolygiadau TGCh blaenorol, ond gan y bu'r cynnydd yn arafach mewn rhai meysydd, ac oherwydd newidiadau trefniadol diweddar a gwaith i uwchraddio'r strwythur TG, mae angen cymryd rhai camau pellach.

5 Mae ein hasesiad manwl o gynnydd yn erbyn pob un o'n hargymhellion blaenorol wedi'i nodi ym mhrif gorff yr adroddiad hwn. Dyma grynodeb o'r hyn a ganfuom:

- Nid yw'r Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth wedi'i roi ar waith yn llawn eto ar ôl ad-drefnu'r rheolwyr yn 2015, ond gall gynnig mwy o sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch ansawdd y data.
- Mae gwaith cynllunio safonedig ar gyfer adfer ar ôl trychineb (AT) a pharhad busnes (PB) yn datblygu, ond nid yw'r cynlluniau PB wedi'u sefydlu gystal mewn rhai adrannau clinigol, a phrin yw'r profion ar gynlluniau AT a PB.
- Mae trefniadau llywodraethu Caldicott wedi gwella, ond ceir gwendidau heb eu datrys yng nghyswllt cynllunio olyniaeth, adnoddau, meincnodi a nodi ffynonellau o wybodaeth sydd yn galluogi adnabod cleifion.
- Mae trefniadau wrth gefn wedi cael eu diwygio er mwyn adlewyrchu'r amgylchedd rhithiol newydd, a bydd y catalog gwasanaeth newydd yn ychwanegu at hyn, ond nid oes unrhyw drefniadau wrth gefn ar gyfer data a ddelir ar ddyfeisiau meddygol.

# Argymhellion

6 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau naw o'r 21 o argymhellion blaenorol yn llawn, ac wedi bodloni wyth o argymhellion eraill yn rhannol. Ceir rhestr lawn o'r argymhellion, ynghyd â statws pob un ohonynt, yn yr adroddiad manwl. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gadw ffocws ar weithredu'r argymhellion nad ydynt wedi'u cwblhau eto. Ceir crynodeb o'r rhain yn Atodiad 1. Rydym hefyd yn cyflwyno pum argymhelliad newydd, a nodir yn Atodiad 2, er mwyn sicrhau ymdriniaeth hefyd â'r meysydd penodol hyn a nodwyd yn 2015.

Arddangosyn 2: argymhellion archwilio

| Argymhellion | |
| --- | --- |
| **Ansawdd Data** | |
| A1 | Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu trefniadau staffio'r Tîm Ansawdd Data a sicrhau bod adnoddau staff yn ddigonol. |
| **Cynllunio AT a PB** | |
| A2 | Dylai'r Bwrdd Iechyd  nodi unrhyw ddeunydd/systemau clinigol allweddol na chynhaliwyd prawf AT arnynt, a sicrhau bod profion priodol yn cael eu cynnal arnynt. |
| **Caldicott** | |
| A3 | Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (USRG), ar ffurf rôl ar wahân i rôl Gwarcheidwad Caldicott. |
| A4 | Dylai staff Llywodraethu Gwybodaeth gydweithio'n agos â'r adran cyfarpar electro-biofeddygol er mwyn sicrhau ystyriaeth lawn o dan egwyddorion Caldicott o ddata a ddelir mewn dyfeisiau meddygol. |
| **Gwybodaeth Wrth Gefn** | |
| A5 | Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi'r holl ddyfeisiau meddygol nad ydynt wedi'u cynnwys o dan gyfundrefn wrth gefn y Gwasanaethau TG, sefydlu polisi ar gyfer trefniadau wrth gefn a chyflwyno canllawiau priodol i'r staff. |

7 Bydd ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd [1] sy'n nodi sut mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ymateb i'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn cael ei gynnwys yn Atodiad 2*.*

[1]Y camau gweithredu a'r graddfeydd amser a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd er mwyn ymdrin â'r argymhellion archwilio, ynghyd â'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd fel bont yn berthnasol, a chan gynnwys y tîm TGCh, y timau rheoli uned ac adrannau eraill fel EBME.

# Adroddiad manwl

8 Yn y tablau isod (Arddangosyn 3 i 6), rhestrir yr argymhellion o bob un o'n pedwar adolygiad blaenorol, a rhoddir ein barn ynghylch a yw'r argymhelliad wedi'i weithredu'n llawn (Do), wedi'i weithredu'n rhannol (Yn rhannol) neu heb ei weithredu (Naddo).

## Ansawdd Data

### Nid yw'r Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth wedi'i roi ar waith yn llawn eto ar ôl ad-drefnu'r rheolwyr yn 2015, ond gall gynnig mwy o sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch ansawdd y data.

Arddangosyn 3: asesiad o'r cynnydd a waned wrth weithredu'r argymhellion ar ansawdd ddata.

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A1 | Do | Cyflwyno adroddiad blynyddol ar ansawdd data i roi sicrwydd ar lefel sefydliadol i'r Bwrdd. Dylai'r adroddiad drafod effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith i sicrhau ansawdd data, a dylai fodloni anghenion data lleol a chenedlaethol. | Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd adroddiadau blynyddol ar ansawdd data yn 2012-13. Maent yn trafod perfformiad o ran ansawdd data yn erbyn dangosyddion cenedlaethol, llywodraethu ansawdd data, a gwaith gwella ansawdd data (yn ogystal â chynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod). Y mae hefyd yn adolygu perfformiad codio clinigol, gwaith gwella ac archwiliadau (mewnol ac allanol).<br>Y Pennaeth Gwybodaeth sydd yn llunio'r adroddiad a gaiff ei adolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth (PLlG). Derbyniodd y Bwrdd adroddiad ansawdd data 2013-14 ym mis Medi 2014, ond cyflwynwyd adroddiad 2014-15 yn hwyrach – ni chafodd ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch hyd fis Chwefror 2016. Er bod trefniadau adrodd blynyddol bellach ar waith, byddai adroddiadau mwy amserol yn cynnig mwy o sicrwydd. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A2 | Yn rhannol | **Sicrhau bod trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth yn effeithlon, yn effeithiol ac yn cynnwys ymdriniaeth briodol ag ansawdd data:**<br>• sicrhau bod strwythurau atebolrwydd a chyfrifoldebau perthnasol yr holl staff am Ansawdd Data yn cael eu cyfleu'n glir, a bod pawb yn eu deall; a<br>• monitro ac adolygu trefniadau llywodraethu Ansawdd Data y Bwrdd Iechyd yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol. | Mae'r fframwaith llywodraethu gwybodeg yn cynnwys tri maes:<br>• Dilysu ac Ymgysylltu Clinigol<br>• Strategaeth a Chyflenwi; a<br>• Llywodraethu Gwybodeg.<br>Mae Ansawdd Data oddi mewn i gylch gwaith y maes Llywodraethu Gwybodaeth.<br>Cafodd y Bwrdd Strategaeth a Llywodraethu Gwybodeg ei ddisodli gan y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth (PLIG) yn 2015, ac fe gynlluniwyd i sefydlu dau Grŵp cefnogol (Grŵp Sicrwydd Ansawdd Data Clinigol a Grŵp Sicrwydd Ansawdd Data Anghlinigol). Mae'r ddau grŵp ategol hyn yn dal heb eu sefydlu, gan eu bod yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r asesiad o'r broses ar gyfer sefydlu'r pecyn cymorth Llywodraethu Gwybodaeth.<br>Yng Nghylch Gorchwyl y PLIG, manylir ar gwmpas ei gyfrifoldeb, sydd yn cynnwys ansawdd data, codio clinigol, ansawdd data adroddiadau ar berfformiad, ansawdd a diogelwch, llywodraethu cofnodion iechyd, diogelwch TGCh, Llywodraethu Gwybodaeth a materion Caldicott. Mae'r PLIG wedi adrodd wrth y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch sydd yn rhoi cyngor i'r Bwrdd Iechyd ynghylch ansawdd a hygrededd, diogelwch a sicrwydd, a mynediad at ddata personol a'r defnydd ohono i gefnogi gofal iechyd o ansawdd uchel. Mae'r Cylch Gorchwyl yn cadarnhau nad yw cwmpas y gwaith wedi newid ers ein hadolygiad yn 2012. Fodd bynnag, cafodd trefniadau adrodd sicrwydd eu diwygio'n ddiweddar, ac ers mis Chwefror 2016 mae'r PLIC wedi bod yn adrodd wrth y Pwyllgor Archwilio. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor wedi cael ei ddiwygio'n unol â hynny. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A2 | Yn rhannol | Sicrhau bod trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth yn effeithlon, yn effeithiol ac yn cynnwys ymdriniaeth briodol ag ansawdd data:<br>• sicrhau bod strwythurau atebolrwydd a chyfrifoldebau perthynol yr holl staff ar gyfer Ansawdd Data wedi'u cyfleu'n glir a bod pawb yn eu deall;<br>• monitro ac adolygu trefniadau Llywodraethu Ansawdd Data y Bwrdd Iechyd o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol. | Mae'r Tîm Ansawdd Data hefyd yn adrodd wrth y Grŵp Llywio Canlyniadau Clinigol, nad yw ei gyfrifoldebau wedi newid ers ein hadroddiad gwreiddiol.<br>Sefydlwyd y Grŵp Defnyddwyr a Arweinir gan Wasanaethau yn 2013 i gytuno ar arferion gwaith ar gyfer gwasanaethau newydd neu newid gwasanaethau er mwy sicrhau bod gan staff gwasanaethau/gwybodeg/cyllid yr wybodaeth berthnasol i hyrwyddo a chofnodi taith y claf yn fanwl gywir.<br>Yn sgil ad-drefnu rheolwyr o fewn y Bwrdd Iechyd ym mis Hydref 2015, mae'r strwythur Llywodraethu Gwybodaeth wedi newid. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwybod bod angen iddo sicrhau bod pobl yn deall beth yw'r cyfrifoldebau am ansawdd data yn benodol, ac am lywodraethu gwybodaeth yn fwy cyffredinol, a bod hynny wedi'i ymwreiddio yn nhrefniadau'r uned weithredol. Bydd cynlluniau i roi'r pecyn cymorth Llywodraethu Gwybodaeth ar waith fesul cam yn cefnogi hyn. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A2 | Yn rhannol | Sicrhau bod trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth yn effeithlon, yn effeithiol ac yn cynnwys ymdriniaeth briodol ag ansawdd data:<br>• sicrhau bod strwythurau atebolrwydd a chyfrifoldebau perthynol yr holl staff am Ansawdd Data yn cael eu cyfleu’n glir, a bod pawb yn eu deall; a<br>• monitro ac adolygu trefniadau llywodraethu Ansawdd Data y Bwrdd Iechyd o bryd i’w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol. | Mae’r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu nifer o rolau a chyfrifoldebau sydd yn trafod ansawdd data:<br>• Mae’r Rheolwr Ansawdd a Safonau Gwybodaeth yn arwain y Tîm Ansawdd Data. Arweinir y tîm gan Reolwr Ansawdd a Safonau Gwybodaeth, ac mae’n cynnwys un cydgysylltydd ansawdd data, un cynorthwyydd gwybodaeth, un swyddog gwybodaeth a chlerc gwybodaeth. Ceir dau aelod yn llai o staff o gymharu â 2012. Mae’r adran rheoli gwybodeg o’r farn nad oes ganddi ddigon o adnoddau i gyflawni ei dibenion. Canlyniad hyn yw diffyg cynnydd o ran glanhau data a darparu cyrsiau hyfforddi ac ymwybyddiaeth.<br>• Roedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno arweinwyr ansawdd data ym mhob cyfarwyddiaeth er mwyn helpu i sicrhau bod safonau’n cael eu cynnal drwy’r holl sefydliad. Mae eu rolau’n cynnwys bod yn bresennol mewn cyfarfodydd grŵp defnyddwyr lefel gwasanaeth, adolygu adroddiadau perfformiad ar ansawdd data ar gyfer eu maes eu hunain a chydweithio â’r Tîm Ansawdd Data i ddatrys materion penodol a gwella perfformiad o ran ansawdd data. Gallai’r rolau hyn newid yn sgil strwythurau’r uned weithredol newydd.<br>• Yn y misoedd diwethaf, mae naw aelod ychwanegol o staff, sef Arbenigwyr Cynnyrch, wedi cael eu cyflwyno ar gyfer pob datrysiad TGCh. Bydd yr Arbenigwr Cynnyrch yn gyfrifol am ddatblygu dyluniadau technegol (systemau newydd a newidiadau i systemau presennol), sicrhau bod systemau’n bodloni anghenion gwasanaeth, a bod gweithdrefnau a safonau ansawdd data wedi’u gweithredu.<br>• Bydd Arbenigwyr Cynnyrch yn sefydlu Grwpiau Defnyddwyr Gwasanaeth ac mae grŵp Myrddin eisoes wedi’i sefydlu, ond roedd y Cylch Gorchwyl yn dal i gael ei ddrafftio wrth gynnal ein hadolygiad. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A2 | Yn rhannol | Sicrhau bod trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth yn effeithlon, yn effeithiol ac yn cynnwys ymdriniaeth briodol ag ansawdd data:<br>• sicrhau bod strwythurau atebolrwydd a chyfrifoldebau perthynol yr holl staff am Ansawdd Data yn cael eu cyfleu'n glir, a bod pawb yn eu deall; a<br>• monitro ac adolygu trefniadau llywodraethu Ansawdd Data y Bwrdd Iechyd o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol. | Mae'r arweinydd tîm Ansawdd Data yn darparu hyfforddiant ar ansawdd data i staff gweinyddol a chlercol. Mae'r Polisi Ansawdd Data, sydd yn cynnwys y Fframwaith a chyfrifoldebau Llywodraethu Gwybodaeth, ar gael ar Fewnrwyd y Bwrdd Iechyd. Bydd staff gweinyddol/clercol yn cael eu hatgoffa pan fydd y polisi'n cael ei adnewyddu.<br>Mae swydd-ddisgrifiadau'r holl staff yn cynnwys adran gyffredinol, sydd yn cynnwys eu cyfrifoldebau unigol am gyfrinachedd ac am reoli cofnodion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid y Bwrdd Iechyd yw'r perchennog systemau ym maes Gofal Sylfaenol. Meddygon Teulu sydd yn cyflawni'r rôl hon, a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (GGGC), a ariennir i ddarparu cymorth. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw awdurdod i gyrchu'r systemau nac i nodi'r dull o weithredu'r systemau.<br>Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwybodeg hefyd yn datblygu ac yn gweithredu ei Fframwaith Sicrwydd Data ei hun i ddarparu:<br>• sicrwydd bod data yn rhoi adlewyrchiad manwl gywir o berfformiad y Bwrdd Iechyd;<br>• hyder bod yr wybodaeth a ddefnyddir ar lefel ddigon uchel i'w defnyddio'n sail wrth wneud penderfyniadau a monitro perfformiad; a<br>• bod dangosydd gweledol yn cydnabod natur amrywiol data ac yn asesu ansawdd data.<br>Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwybodeg wedi sefydlu gofyniad i integreiddio'r Nod Barcud (fel y'i defnyddiwyd yn rhai o Ymddiriedolaethau GIG Lloegr) yn natganiadau perfformiad misol y Bwrdd Iechyd. Mae'r Nod Barcud yn cynnwys pum elfen greiddiol ansawdd data, a bydd setiau data yn cael eu hasesu'n fisol gan berchnogion data yn erbyn y safon hon. Derbyniwyd yr adroddiad, a chytuno arno yng nghyfarfod y PLlG ym mis Awst 2015. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
| --- | --- | --- | --- |
| A3 | Do | Diweddaru'r Polisi Ansawdd Data fel bod y polisi:<br>• yn ymdrin â phob agwedd ar y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys anghenion ansawdd data gofal sylfaenol ac anghenion ansawdd data wedi'u diffinio'n lleol.<br>• yn nodi sut mae'r Bwrdd Strategaeth a Llywodraethu Gwybodaeth yn cydgysylltu ac yn rhoi sicrwydd ynghylch ansawdd data i bwyllgor ffurfiol o'r Bwrdd neu'r Bwrdd ei hun; ac<br>• yn diffinio rôl a chyfrifoldeb y Rheolwr Ansawdd Data. | Cafodd y Polisi Ansawdd Data ei adolygu ym mis Medi 2013, ei argymell gan y Bwrdd Strategaeth a Llywodraethu Gwybodaeth ym mis Medi 2013 a'i gadarnhau gan y Bwrdd Newid er Gwell ym mis Chwefror 2014.<br>Mae'r polisi yn nodi ei fod yn berthnasol i'r holl staff a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd (gan gynnwys staff asiantaeth neu gontract), ac yn nodi'r cyfrifoldeb ar gyfer cofnodi, dehongli neu adrodd ar ddata yn gysylltiedig â busnes y Bwrdd Iechyd. Mae'r polisi hefyd yn adlewyrchu cydnabyddiaeth y Bwrdd Iechyd o'i gyfrifoldebau tuag at ymarferwyr gofal sylfaenol ac yn cynnig y polisi i'w ddefnyddio ganddynt i oleuo a chefnogi arfer da. Er bod hyn yn amodol ar y cyfyngiadau a grybwyllir yn A2 uchod, o ran awdurdod dros systemau a gweithdrefnau gofal sylfaenol.<br>Mae'r polisi yn diffinio'r adroddiad ansawdd data blynyddol fel cyfrwng i'r Bwrdd Iechyd gael sicrwydd ynghylch ansawdd data, ac yn cynnwys cyfrifoldebau'r Rheolwr Ansawdd a Safonau Gwybodaeth. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A4 | Yn rhannol | Lleihau data demograffig dyblyg amhriodol am gleifion o fewn systemau allweddol (fel PAS, RADIS, RadCentre ac eraill) a hyrwyddo defnydd cyson o niferoedd y GIG a manylion adnabod cleifion. | Roedd y Bwrdd Iechyd yn un o'r sefydliadau cynharaf i fabwysiadu'r Brif Fynegai Cleifion yn 2011, sydd yn cysylltu cofnodion cleifion ac yn sefydlu manylion adnabod cleifion. Mae'r Brif Fynegai Cleifion yn cael ei hychwanegu at systemau eraill ar hyn o bryd.<br>Yn ddiweddar, cyflogwyd Arbenigwr Cynnyrch y Brif Fynegai Cleifion fydd yn archwilio cofnodion dyblyg ac yn mesur maint y broblem yn gysylltiedig â chofnodion dyblyg.<br>Ers yr adolygiad gwreiddiol, mae sawl datrysiad wedi cael ei gynnal ar y system TG er mwyn helpu i leihau cofnodion dyblyg, gan gynnwys y canlynol:<br>• cyflwynwyd System Gweinyddu Cleifion gyfun yn 2013, wedi'i thanategu gan y Brif Fynegai Cleifion;<br>• gweithredwyd system theatr gyfun yn 2014;<br>• mae systemau patholeg wedi cael eu mudo i'r System Rheoli Gwybodaeth Labordai genedlaethol;<br>• Bydd system archifo lluniau a chyfathrebu Fuji (PACS), system a ddefnyddir yn genedlaethol, yn cael ei gweithredu ar draws y Bwrdd Iechyd erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2015-16;<br>• mae tair system awdioleg wedi cael eu rhesymoli i greu un system gyfun; a<br>• bwriedir gweithredu'r system genedlaethol ar gyfer Adrannau Achosion Brys yn 2016.<br>Er mwyn osgoi mwy o gofnodion dyblyg, arweiniodd y Bwrdd Iechyd y gwaith o ddatblygu 'Safon Aur' ar gyfer adnabod cleifion - arfer gorau, o dan yr ymgyrch 1000 o Fywydau. Cafodd canllawiau ar Chwilio am Gleifion a Chofrestru a Newid eu Manylion eu cynnwys gyda hyfforddiant Myrddin i'r holl aelodau staff.<br>Ceir problem yn gysylltiedig â chofnodion papur dyblyg yn ogystal â chofnodion electronig dyblyg. Mae achos busnes yn cael ei lunio am ddatrysiad sganio ar gyfer y rhain, ond nid yw'r achos yn ddigon parod i'w rannu.<br>Mae cofnodion dyblyg (electronig a phapur) yn parhau i fod yn risg yr hysbysir amdano ar y system Datix (cofrestrau risg) gyda'r diweddariadau diweddaraf (02 Awst 2015 a 02 Hydref 2015) yn cynnwys sgôr â risg weddilliol o 20 a risg goch. |

# Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes

## Mae gwaith cynllunio safonedig ar gyfer adfer ar ôl trychineb (AT) a pharhad busnes (PB) yn datblygu, ond nid yw'r cynlluniau PB wedi'u sefydlu gystal mewn rhai adrannau clinigol, a phrin yw'r profion ar gynlluniau AT a PB.

Arddangosyn 4: asesiad o'r cynnydd a waned wrth weithredu argymhellion ar adfer ar ôl trychineb ac ynghylch parhad busnes

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A1 | Yn rhannol | Datblygu gwaith cyffredinol i gydgysylltu'r ddarpariaeth AT TGCh ar gyfer y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau blaenoriaethau clir o ran y drefn ar gyfer adfer systemau os ceir methiant ar raddfa fawr. Profi'r trefniadau hyn ar ôl eu cwblhau er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio yn unol â'r bwriad. | Mae'r seilwaith TG wedi newid o weinyddion cymhwysiad ffisegol i amgylchedd rhithiol ers yr adolygiad diwethaf yn 2012. Nid yw cyfleusterau AT traddodiadol yn berthnasol mwyach, ee, safle wrth gefn neu gael cyflenwr allanol i ddarparu canolfan data symudol.<br>Mae gan y Bwrdd Iechyd ganolfannau data lluosog a rhwydweithiau rhithiol fel bo modd adfer gweinyddion rhithiol i weinydd arall mewn canolfan ddata wahanol yn weddol rwydd.<br>Mae'r catalog gwasanaeth sydd yn cael ei lunio ar hyn o bryd (gweler Gwybodaeth Wrth Gefn isod) yn cynnwys manylion dibyniaeth gwasanaethau, ac mae pob system wedi'i rhannu i un o'r categorïau canlynol:<br>• Gwein - Safonol<br>• Gwein - Critigol<br>• Clinigol - Safonol<br>• Clinigol - Critigol<br>Cytunir ar gategorïau a ddyrennir i bob system â pherchnogion y systemau hynny.<br>Mae gweithdrefnau AT yn rhan o'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer pob math o system, ac yn cael eu hymgorffori yn y Catalog Gwasanaeth ar hyn o bryd. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A1 | Yn rhannol | Datblygu gwaith cyffredinol i gydgysylltu’r ddarpariaeth AT TGCh ar gyfer y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau blaenoriaethau clir o ran y drefn ar gyfer adfer systemau os ceir methiant ar raddfa fawr. Profi’r trefniadau hyn ar ôl eu cwblhau er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio yn unol â’r bwriad. | O fewn y cyfyngiadau ariannu cyfredol, nid oes gan wasanaethau TG ond digon o adnoddau i gynnal gwasanaethau byw, ac ni allant ddarparu profion AT llawn ar draws y safleoedd. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o adfer ffeiliau unigol, cronfeydd data a gweinyddion llawn i’w chael ar wefan Sharepoint y Gwasanaethau TG. Er bod yr holl adferiadau wedi’u cofnodi, nid yw’n glir a gaiff yr holl systemau critigol eu profi’n rheolaidd. Dylai’r Bwrdd Iechyd nodi unrhyw systemau clinigol allweddol/o bwys na chynhaliwyd prawf AT arnynt, a chynnal y profion priodol. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A2 | Yn rhannol | Atgyfnerthu’r gwaith cynllunio PB drwy:<br>• Weithredu’r gofrestr PB gorfforaethol gyffredinol ar gyfer y Bwrdd Iechyd sydd yn cydgysylltu’r holl gynlluniau adrannol. Yn rhan o’r broses hon, dylid ymgysylltu’n weithredol â phob adran.<br>• Egluro a dyrannu perchnogaeth ar PB ar lefel adrannau gwasanaeth clinigol.<br>• Datblygu a dogfennu cynlluniau PB systemau clinigol sydd:<br>– Yn cadw at dempled safonol yn seiliedig ar arfer da yn y maes hwn.<br>– Yn cynnwys asesiad risg er mwyn penderfynu ar y trefniadau y mae angen eu rhoi ar waith.<br>– Wedi’u cymeradwyo’n ffurfiol gan uwch reolwyr y maes gwasanaeth.<br>– Wedi’u diweddaru’n rheolaidd a’u cyfleu wrth yr aelodau hynny o staff a allai fod eu hangen. | Nid oes cofrestr PB gorfforaethol gyffredinol wedi’i sefydlu eto.<br>Mae Swyddog Cynllunio at Argyfwng y Bwrdd Iechyd a’r Grŵp Cynllunio at Argyfwng wedi cael eu sefydlu ers 2011. Rhan o gylch gwaith y grŵp yw bod yn gyfrifol am sicrhau bod Cynlluniau at Argyfwng a chynlluniau PB ar waith, yn gyfredol, ac yn unol â Safon PB BS2599’. Y mae’n is-grŵp i’r Grŵp Rheoli Gweithredol, ac mae hefyd yn adrodd wrth y Grŵp Llywodraethu Clinigol a Rheoli Risg. Dengys agenda a chofnodion cyfarfod 7 Hydref 2015 fod trafodaeth wedi’i chynnal ar y broses newydd ar gyfer PB.<br>Mae’r Swyddog Cynllunio at Argyfwng wedi llunio Strategaeth ddrafft ar gyfer Cynllunio at Argyfwng. Mae’r Strategaeth yn trafod trefniadau arfaethedig y Bwrdd Iechyd o ran parodrwydd am argyfwng, cydnerthedd a’r ymateb i argyfwng o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004. Mae’r Swyddog Cynllunio at Argyfwng yn gyfrifol am gynnal a chofrestru cynlluniau PB corfforaethol, ac yn canolbwyntio i ddechrau ar ddatblygu cynlluniau PB corfforaethol, fel y ‘Fframwaith Pandemig’ a’r Cynllun PB Telathrebu. Mae’r rhain yn cefnogi digwyddiadau a allai gael effaith sylweddol ar y Bwrdd Iechyd cyfan, neu ran ohono, ac a gaiff eu cyfuno â chynlluniau lleol penodol ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth/Maes Arbenigol a swyddogaethau sefydliadol allweddol er mwyn rheoli aflonyddwch lleol a darparu cefnogaeth yn wyneb aflonyddwch sefydliadol graddfa fwy.<br>Yn dilyn ad-drefnu’r sefydliad ym mis Hydref 2015, mae gan Gyfarwyddwyr Uned bellach gyfrifoldeb dros bob uned weithredol, yn lle’r strwythur rheoli llorweddol a gafwyd yn flaenorol ar draws cyfarwyddiaethau/meysydd arbenigol. Wrth gyflawni ein gwaith maes, roedd y Swyddog Cynllunio at Argyfwng yn trefnu cyfarfodydd â’r holl Gyfarwyddwyr i drafod y trefniadau cynllunio at argyfwng a’u cyfrifoldebau dros gynlluniau PB lleol. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A2 | Yn rhannol | – Wedi'u profi lle bo hynny'n ymarferol ac yn bosibl, er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n unol â'r bwriad ac yn addas i'r diben. Dylid cynnal y prawf hwn bob blwyddyn o leiaf.<br>• Cwblhau cynllun PB y Fferyllfa, lle mae'r adran 'diffyg argaeledd eiddo' heb ei chwblhau.<br>• Cwblhau'r cynllun PB TG a strategaeth profi'r cynllun PB a phrofi'r trefniadau ar ôl eu gweithredu er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n unol â'r bwriad. | Mae dwy ddogfen allweddol wedi cael eu llunio i'r Cyfarwyddwyr Uned newydd:<br>• Fframwaith Strategol Rheoli Parhad Busnes - fframwaith cyffredinol o egwyddorion parhad busnes a'r trefniadau parhad busnes ar gyfer Cyfarwyddiaethau, meysydd arbenigol a swyddogaethau sefydliadol craidd. Mae templed o gynllun PB lleol wedi'i gynnwys yn yr atodiad a chyfarwyddiadau ar gyfer datblygu cynlluniau lleol drwy ddefnyddio dadansoddiad effaith busnes i nodi gweithgareddau hollbwysig.<br>• Cwblhau'r Broses Parhad Busnes - yn cynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i ragweld y risgiau wrth ymdrin â digwyddiadau heb eu cynllunio a digwyddiadau sylweddol sydd yn effeithio ar sawl swyddogaeth ac yn diffinio'r cynlluniau PB corfforaethol. Y mae hefyd yn gweithredu fel cofrestr ar gyfer y cynlluniau corfforaethol.<br>Bydd Cyfarwyddwyr Uned yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl adrannau lleol wedi datblygu cynllun PB effeithiol ar gyfer eu safle, bod y cynllun hwnnw wedi'i brofi a'i storio'n briodol a bod cofrestr o gynlluniau'n cael ei chadw.<br>Caiff cynlluniau PB corfforaethol eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Grŵp Cynllunio at Argyfwng, ond mae 'Bwrdd Cynllunio a Chomisiynu Strategol' newydd yn cael ei sefydlu fydd yn cadarnhau'r cynlluniau corfforaethol yn y dyfodol. Mae'n anodd profi cynlluniau corfforaethol, ond cynhelir ymarfer cyfathrebu oriau arferol/y tu allan i oriau chwe-misol, ac mae adolygiad pen bwrdd wedi'i gynllunio o'r trefniadau ar gyfer gwagio'r ysbyty cyfan. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A2 | Yn rhannol | | Ceir crynodeb isod o’n canfyddiadau’n gysylltiedig â chynlluniau PB mewn amrywiaeth o adrannau clinigol:<br>**Fferylliaeth**<br>Adran gyflenwi gyfun a gynhelir gan ardal leol Castell-nedd Port Talbot yw’r Gwasanaeth Cyflenwi Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau, ond ceir Rheolwr Adrannol Fferylliaeth lleol ar bob safle ysbyty. Ceir cynllun PB cyffredinol ar gyfer Fferylliaeth, ond mae’n cynnwys adrannau ar safleoedd penodol yn yr adran ‘diffyg argaeledd eiddo’. Canfuwyd bod adran Ysbyty Tywysoges Cymru a Chefn Coed (Iechyd Meddwl) ar goll.<br>Nid yw’r fformat wedi newid ers ein hadolygiad diwethaf, ac nid yw hyd yma yn y templed safonol a gyflwynwyd gan y Swyddog Cynllunio at Argyfwng. Fodd bynnag, cynhaliwyd Dadansoddiad Effaith Busnes er mwyn penderfynu ar y swyddogaethau busnes hollbwysig a’r trefniadau y mae angen eu rhoi ar waith.<br>Ni chaiff trefniadau PB eu profi’n rheolaidd. Yr unig brofion a gynhelir yw’r profion ar y broses rhaeadru fferyllydd ar alwad er mwyn hysbysu aelodau eraill o staff fferyllol os ceir digwyddiad y tu allan i oriau arferol. Cafodd hyn ei brofi ddiwethaf ar 25 Hydref 2015, ond ni cheir cofnod o’r prawf, ac ni chaiff y prawf ond ei gynnal ar sail ad hoc. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A2 | Yn rhannol | | **Radioleg**<br>Adran gyflenwi ddeuol yw’r Gwasanaethau Radioleg a gynhelir yn:<br>• Y Gorllewin (Ysbytai Singleton a Threforys) gan Dreforys<br>• Y Dwyrain (Ysbytai Tywysoges Cymru a Chastell-nedd Port Talbot) gan Ysbyty Tywysoges Cymru<br>Mae gan bob adran Reolwr Gwasanaethau Radioleg, ond mae gan yr adran un Cynllun PB cyfun. Datblygwyd y Cynllun hwnnw gan y Rheolwr Gwasanaethau Radioleg (Y Gorllewin) a’r Radiograffydd Uwcharolygol (Singleton), ond mae’r cynllun yn berthnasol i wasanaethau’r Gorllewin a’r Dwyrain.<br>Mae’r cynllun yn fformat y templed corfforaethol, fel y’i diffiniwyd yn y Fframwaith Strategol Rheoli PB. Defnyddir Dadansoddiad Effaith Busnes i nodi gweithgareddau, cynnyrch a gwasanaethau ynghyd â’r effaith neu’r amhariad ar y gweithgareddau hynny, y camau sydd eu hangen, pwy sydd yn gyfrifol am gymryd y camau hynny a phryd. Yn yr wybodaeth rheoli dogfennau, nodir ei fod yn cael ei adolygu’n flynyddol. Caiff y fersiwn hon ei chymeradwyo’n ffurfiol gan y Rheolwr Gwasanaethau Radioleg (Gorllewin), ond yn y dyfodol fe’i cymeradwyir hefyd gan y Rheolwr Gwasanaethau Radioleg (Dwyrain).<br><u>Radioleg y Gorllewin</u><br>Mae gweithdrefnau lleol (SOPs) wedi cael eu datblygu ac ar gael ar gyfer pob safle ym mhob un o’r ardaloedd radiograffeg. Fe’u rheolir gan uwcharolygydd (uwch reolwr) pob ardal. Mae’r holl staff yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio’r gweithdrefnau hyn wrth iddynt ddechrau eu swydd.<br>Nid yw’r SOPs yn cynnig yr un lefel o reolaeth ar ddogfennau ag a geir yn y Cynllun PB, ond fe’u hadolygir yn flynyddol, neu ar ôl digwyddiad o bwys.<br>Mae’r trefniadau ar gyfer profi’r cynllun PB o natur ad hoc, fel arfer pan geir digwyddiadau byw. Er enghraifft, ni fu modd defnyddio unrhyw un o’r sganwyr CT yn ysbyty Treforys yn dilyn methiant pŵer, gan na wnaeth generadur yr ysbyty gychwyn yn unol â’r disgwyl. Mae’r gwasanaethau radiograffeg (Y Gorllewin) yn defnyddio systemau anghenedlaethol ar hyn o bryd. Ar gyfer PACs, pan fo gwasanaethau’n mudo i’r system genedlaethol (PACS Fuji), ceir prawf AT yn rhan o’r profion derbyn defnyddwyr. Bwriedir trefnu’r prawf hwn ym mis Mawrth 2016. Mae GGGC wedi oedi’r broses o fudo i’r system genedlaethol, y System Gwybodaeth Radioleg (RADIS). |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A2 | Yn rhannol | | <u>Radioleg y Dwyrain</u><br>Mae gweithdrefnau lleol (SOPs) wedi cael eu datblygu ac ar gael yn 'ardal wylio' y brif adran Radioleg yn ysbytai Tywysoges Cymru a Chastell-nedd Port Talbot. Ceir trefniadau rheoli dogfennau ar gyfer gweithdrefnau lleol, ac mae'r trefniadau hynny'n dangos bod y dogfennau a ddarperir yn cael eu hadolygu'n flynyddol, neu ar ôl digwyddiad mawr.<br>Mae'r holl staff radioleg yn derbyn cwrs ymsefydlu, ond rhoddir hyfforddiant iddynt ar SOPs parhad busnes a gweithdrefnau Digwyddiad Mawr wrth iddynt gychwyn dyletswyddau ar alwad.<br>Mae'r trefniadau ar gyfer profi'r cynllun PB o natur ad hoc, fel arfer pan geir digwyddiadau byw, er enghraifft, yn 2015 pan dorrodd gweithwyr drwy gebl trydan. Caiff yr holl eneraduron eu profi'n fisol.<br>Mae gwasanaethau radioleg (Dwyrain) bellach yn defnyddio systemau cenedlaethol. Roedd AT wedi'i gynnwys yn rhan o'r profion defnyddwyr wrth fudo'r gwasanaethau i Fuji PACS ym mis Hydref 2015. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A2 | Yn rhannol | | **Patholeg**<br>Caiff Patholeg PABM ei reoli drwy'r Bwrdd Iechyd o ysbyty Singleton. Mae gwasanaethau wedi cael eu rhesymoli ar draws y Bwrdd Iechyd i:<br>• Feddygaeth Labordai (Patholeg Cemegol a Haematoleg Labordai a Thrallwysiadau Gwaed);<br>• Patholeg Cellog; a<br>• Gwasanaethau Corffdy.<br>Mae uwch reolwyr yn gyfrifol am barhad busnes gweithredol eu disgyblaethau.<br>Rheolir y Cynllun PB Patholeg gan y Rheolwr Cyffredinol Cysylltiol ar gyfer Patholeg a Gwasanaethau Diheintio a Steryllu, ond nid yw'n cadw at y templed safonol a gyflwynwyd gan y Swyddog Cynllunio at Argyfwng. Fe'i dyluniwyd fel briff cyffredinol, trosfwaol i'r Bwrdd Iechyd er mwyn rhoi sicrwydd bod gan yr Adrannau Labordy drefniadau ar waith ar gyfer parhad busnes. Ni fwriadwyd iddo gael ei ddefnyddio fel dogfen gweithdrefnol i'w dilyn gan y staff. Y mae wedi bod ar waith ers cyfnod hir, ond ni cheir rhyw lawer o reolaeth ar y ddogfen. Nid yw'n glir a gafodd ei datblygu drwy ddefnyddio asesiad risg er mwyn penderfynu ynghylch y trefniadau sydd eu hangen, ac ni cheir unrhyw ddyddiadau adolygu penodol ar ei chyfer.<br>SOPs yw'r dogfennau gweithdrefnol tanategol. Cedwir y rhain yn Q-Pulse, ac maent yn cynnwys rheolaeth lawn ar ddogfennau. Ceir 2,800 o weithdrefnau, ond mae'r mwyafrif ohonynt ar gyfer cynnal y gwasanaeth mewn amgylchiadau arferol. Sicrheir cymeradwyaeth drwy bwyllgor o fewn y maes, ac ar ôl derbyn cymeradwyaeth bydd yr uwch reolwr neu'r rheolwr ansawdd yn diweddaru'r SOP ar Q-Pulse. Anfonir hysbysiad e-ddiweddaru at ddefnyddwyr.<br>Mae'r trefniadau ar gyfer profi'r cynllun PB a'r SOPs PB o natur ad hoc, fel arfer pan geir digwyddiadau byw. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys salwch staff a nenfwd yn gollwng yn ysbyty Tywysoges Cymru o'r ward uwchben, a olygai fod angen adleoli gwaith prosesu.<br>Mae'r trefniadau ar gyfer hyfforddi staff, cyfarpar a SOPs wedi cael eu safoni ar draws y Bwrdd Iechyd, fel bod modd symud gwaith yn rhwydd rhwng gwahanol safleoedd. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A2 | Yn rhannol | | **Gwasanaethau TG**<br>Mae cynllun PB y Gwasanaethau TG bellach ar waith ac yn y fformat a ragnodwyd drwy ddogfen y Fframwaith Parhad Busnes. Mae’r trefniadau ar gyfer profi o natur ad hoc, fel arfer pan geir digwyddiadau byw. Er enghraifft, cafodd elfen y Ddesg Gwasanaeth ei phrofi’n llwyddiannus mewn argyfwng byw ym mis Awst 2015, pan dorrodd gweithwyr drwy gebl a achosodd i’r rhwydwaith gael ei golli yn y pencadlys. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A3 | Do | Storio a chreu copïau papur o'r cynllluniau PB ac AT, sydd ar gael ar hyn o bryd drwy'r safle Rhyngrwyd, fel bo modd eu cyrchu'n rhwydd mewn argyfwng pan na cheir mynediad at y Rhyngrwyd. | **Fferylliaeth**<br>Caiff copïau papur o'r cynllun PB a ffurflenni cipio data â llaw eu storio yn y ffeil Digwyddiadau Mawr.<br>**Radioleg**<br><u>Radioleg y Gorllewin</u><br>Cedwir copïau electronig o'r cynlluniau PB a'r gweithdrefnau lleol yn ffeiliau anstrwythuredig (gyriant G) yr Adran, a chopïau wrth gefn ohonynt gan y gwasanaethau TGCh. Cedwir copi papur o'r cynllun PB a gweithdrefnau lleol yn swyddfa'r Pennaeth Gwasanaethau Radioleg, ac maent hefyd ar gael yn yr holl adrannau radiograffeg.<br><u>Radioleg y Dwyrain</u><br>Cedwir copïau electronig o'r Cynllun PB Radiograffeg a'r SOPs ar yriant a rennir (G:), gyda chopi wrth gefn gan y gwasanaethau TGCh. Cedwir copïau electronig o'r cynllun PB a gweithdrefnau lleol yn 'Ardal wylio' yr adran radiograffeg. Fe'u cedwir hefyd gan reolwyr adain.<br>**Patholeg**<br>Mae rheolwyr gwasanaeth yn cadw copïau electronig o'r Cynllun PB Patholeg. Cedwir copïau electronig o'r SOPs ar QPulse, sydd wedi'i leoli ar weinydd corfforaethol a reolir gan wasanaethau TGCh y Bwrdd Iechyd.<br>Nid oes copïau papur ar gael ar gyfer unrhyw SOPs heblaw am ar gyfer Trallwysiadau Gwaed (lle mae'r elfen amser yn hollbwysig). Adroddodd y rheolwr Patholeg mai'r rheswm am hyn oedd pe bai QPulse yn methu, na fyddai'r methiant hwnnw'n parhau am fwy nag awr. Gallai pob gwasanaeth arall aros am y cyfnod hwnnw. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A3 | Do | Storio a chreu copïau papur o’r cynllluniau PB ac AT, sydd ar gael ar hyn o bryd drwy’r safle Rhyngrwyd, fel bo modd eu cyrchu’n rhwydd mewn argyfwng pan na cheir mynediad at y Rhyngrwyd. | **Gwasanaethau TG**<br>Nid oes cynllun AT cyffredinol, ond mae gwaith ar y gweill i ddatblygu’r Catalog Gwasanaeth (gweler A1 uchod). Cedwir copi electronig o’r Cynllun PB TG ar Sharepoint, a chopïau papur yn y sêff gwrthdan ar bob safle ysbyty. |
| A4 | Do | Adleoli ac adolygu’r seilwaith cefnogol ar gyfer y ddau graidd rhwydwaith yn ysbytai Castell-nedd Port Talbot a Thywysoges Cymru, fel eu bod wedi’u lleoli mewn ystafelloedd cyfrifiaduron ar wahân, ac er mwyn osgoi methiant un pwynt. | Mae switsys rhwydwaith craidd pob prif safle ysbyty (Treforys, Singleton, Tywysoges Cymru a Chastell-nedd Port Talbot) mewn ystafelloedd gwahanol. Mae pob craidd ar gylched pŵer gwahanol o fewn yr ysbytai, ac mae Cylchedau BT a Virgin wedi’u gwahanu rhwng y naill swits craidd a’r llall. Mae’r holl switsys rhwydwaith ymylol yn terfynu ar y ddau swits craidd.<br>Cafodd lleoliadau craidd rhwydwaith pob safle ysbyty eu cadarnhau gyda Rheolwr Rhwydwaith y Bwrdd Iechyd. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A5 | Do | Cwblhau, diweddaru a llunio trefniadau contractio yn derfynol, drwy'r gweithgor sy'n cael ei sefydlu i'r diben hwn, ar gyfer AT a systemau hollbwysig a gyflenwir gan drydydd parti.<br>Yn benodol:<br>• Cwblhau'r cytundeb cefnogi a chynnal ar gyfer system Ascribe a diffinio cyfrifoldebau a phrosesau ar gyfer trefniadau AT priodol.<br>• Diffinio cyfrifoldebau AT clir ar gyfer y system JAC.<br>• Adolygu'r gweithdrefnau adfer ar gyfer system Telepath er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben. | Nid yw'r system Fferylliaeth, ASCRIBE, yn cael ei defnyddio mwyach. System a etifeddwyd gan y Bwrdd Iechyd oedd hon wrth newid y ffiniau a ffurfio'r Bwrdd Iechyd. Ni chafodd ond ei defnyddio ar safleoedd Ysbyty Tywysoges Cymru a Chefn Coed (Iechyd Meddwl).<br>Mae un system Rheoli Stoc Fferyllol JAC bellach ar waith ac yn hygyrch o bob safle. Cynhaliwyd ymarfer caffael ffurfiol yn 2013 a arweiniodd at weithredu JAC ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r contract a ddarparwyd yn diffinio cyfrifoldebau'r cyflenwr a'r Bwrdd Iechyd. Gwasanaethau TG y Bwrdd Iechyd yw darparu a chynnal caledwedd gweinyddion a chysylltedd rhwydweithiau; mae'r cyflenwyr yn gyfrifol am ddarparu meddalwedd, cefnogaeth a datblygiad.<br>Nid yw AT wedi'i restru'n benodol ymhlith cyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd (Atodlen D), ond mae'r cyfrifoldeb ymhlyg yn y gofynion ar gyfer cynnal y prif weinyddion/drych-weinyddion a chyfrifoldeb ar gyfer darpariaethau wrth gefn. Hefyd, yn Adran B – Cyflawniadau, yn B6 – Adfer ar ôl Trychineb, mae'r cyflenwr hefyd yn rhoi hawl i'r Bwrdd Iechyd osod y feddalwedd ar galedwedd arall yn rhan o'r trefniadau AT. Mae'r system JAC yn rhan o'r ffermydd o weinyddion rhithiol a'r gwasanaethau TG sydd yn gyfrifol am ddarpariaethau wrth gefn/AT.<br>Mae SOP Fferylliaeth ar gyfer colli'r system JAC hefyd ar waith. Pe bai'r system yn cael ei cholli ar unrhyw safle unigol, gellid rheoli hynny dros dro drwy ei gaffael o un o safleoedd eraill y Bwrdd Iechyd. Gellir dosbarthu cyffuriau o safle arall drwy rwydwaith trafnidiaeth y Bwrdd Iechyd. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A5 | Do | Adolygu’r contractau a’r cytundebau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys diffiniad digonol o:<br>• gyfrifoldebau’r sefydliadau cyflenwi a derbyn;<br>• lleoliad, trefniadau a nodweddion cydnerthedd y gwasanaeth;<br>• argaeledd y gwasanaeth ac unigolion cyswllt;<br>• Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ac adrodd ar y rhain;<br>• trefniadau wrth gefn; a<br>• threfniadau AT a PB. | Nid yw Telepath yn cael ei defnyddio mwyach. Mae’r gwasanaethau Patholeg bellach yn defnyddio:<br>Trak (LIMS) – a ddefnyddir i dynnu manylion demograffig o’r system gweinyddu cleifion (PAS) i’w cysylltu â’r prawf a geisiwyd - ar gyfer Meddygaeth Labordy a Histoleg. Dyma’r system Cymru gyfan a reolir yn llawn gan GGGC.<br>MasterLAB – a ddefnyddir i dynnu manylion demograffig o’r system PAS i’w cysylltu â’r prawf a geisiwyd – ar gyfer trallwysiadau gwaed.<br>Mae’r trefniadau AT yr un peth â’r hyn a gafwyd yn ein hadolygiad gwreiddiol, ac mae’r prawf nesaf wedi’i amserlennu ar gyfer mis Ionawr 2016 yng nghanolfan ddata SunGARD yng Nghaerlŷr. Nid oes sicrwydd ynghylch hyn eto gan fod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu mudo i system Trallwysiadau Gwaed LIMS Cymru gyfan, ond mae’r dyddiadau targed ar gyfer mudo wedi llithro.<br>Adolygiad Indigo – System darllen canlyniadau. Rheolir y system gan wasanaethau TG y Bwrdd Iechyd.<br>PSM – Canolwedd dadansoddi i gysylltu dadansoddwyr lluosog ag un ffynhonnell (TRAK neu Masterlab). Hefyd yn gweithredu fel crynhöwr i reoli’r dadansoddwyr.<br>Cynhelir gweinydd cysgodol mewn lleoliad ar wahân i’r gweinydd byw - caiff hwn ei ddiweddaru ochr yn ochr â’r gweinydd byw. Cedwir dogfen sydd yn amlinellu’r broses i’w pherfformio yn ystod methiant system ar QPulse. |

# Trefniadau Caldicott

## Mae trefniadau llywodraethu Caldicott wedi gwella, ond ceir gwendidau heb eu datrys yng nghyswllt cynllunio olyniaeth, adnoddau, meincnodi a nodi ffynonellau o wybodaeth sydd yn galluogi adnabod cleifion.

Arddangosyn 5: asesiad o'r cynnydd a waned wrth weithredu'r argymhellion yn ymwneud â threfniadau Caldicott

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A1 | Naddo | Mae'r Gwarcheidwad Caldicott cyfredol yn uchel ei barch, ac mae staff a rheolwyr y Bwrdd Iechyd yn ei adnabod. Mae'n hanfodol i'r Bwrdd Iechyd sefydlu trefniadau cynllunio olyniaeth effeithiol i reoli'r broses o benodi Gwarcheidwad Caldicott newydd pan fydd y Gwarcheidwad cyfredol yn ymddeol ym mis Rhagfyr 2012. Dylid ystyried penodi Dirprwy Warcheidwad Caldicott a allai sicrhau parhad a chynnydd yn erbyn camau gweithredu, pan fo Gwarcheidwad Caldicott yn absennol. Serch hynny, dylai'r Gwarcheidwad barhau i wneud penderfyniadau ynghylch Caldicott - ac ni ddylid dirprwyo'r penderfyniadau hynny. | Newidiwyd Gwarcheidwad Caldicott ddwywaith ers ein hadolygiad yn 2012, a'r Gwarcheidwaid blaenorol a chyfredol oedd y/yw'r Cyfarwyddwr Meddygol. Fodd bynnag, ni cheir dirprwy swyddogol ar gyfer Gwarcheidwad Caldicott a allai sicrhau parhad yn absenoldeb y Gwarcheidwad.<br>Yn ychwanegol at Warcheidwad Caldicott, mae'n arfer da cael Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (USRG) ar wahân. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod hyn, ond nid yw eto wedi cyflwyno USRG dynodedig. Ceir nifer o wahaniaethau ac achosion posibl o wrthdaro rhwng rolau'r USRG a Gwarcheidwad Caldicott sydd yn golygu ei bod hi'n ddoeth eu cadw fel rolau gwahanol ar wahân. Mae'r ddwy rôl yn ceisio sicrhau bod data'r GIG wedi'i ddiogelu, ac nad yw'n cael ei storio, ei gyrchu na'i ddefnyddio mewn modd amhriodol, ond yn ymarferol mae'r naill rôl a'r llall yn wahanol:<br>• Mae Gwarcheidwad Caldicott (sef aelod Bwrdd sydd yn swyddog proffesiynol lefel uwch) yn ymwneud yn bennaf â diogelu gwybodaeth cleifion a defnyddwyr gwasanaeth drwy sicrhau na chaiff yr wybodaeth honno ond ei rhannu â'r rhai a chanddynt angen y gellir ei gyfiawnhau amdano; ac na chaiff ond ei rhannu drwy ddulliau sydd wedi'u diogelu'n briodol.<br>• Uwch swyddog yw'r USRG sydd yn ymwneud â nodi a rheoli risgiau gwybodaeth ehangach i'r sefydliad, gan gynnwys y polisi risg gwybodaeth cyffredinol a'r broses asesu risg. Dylid defnyddio Perchnogion Asedau Gwybodaeth i gefnogi'r rôl, gan ddyrannu cyfrifoldebau dros asedau gwybodaeth i bob un. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A1 | Naddo | Mae'r Gwarcheidwad Caldicott cyfredol yn uchel ei barch, ac mae staff a rheolwyr y Bwrdd Iechyd yn ei adnabod. Mae'n hanfodol i'r Bwrdd Iechyd sefydlu trefniadau cynllunio olyniaeth effeithiol i reoli'r broses o benodi Gwarcheidwad Caldicott newydd pan fydd y Gwarcheidwad cyfredol yn ymddeol ym mis Rhagfyr 2012. Dylid ystyried penodi Dirprwy Warcheidwad Caldicott a allai sicrhau parhad a chynnydd yn erbyn camau gweithredu, pan fo Gwarcheidwad Caldicott yn absennol. Serch hynny, dylai'r Gwarcheidwad barhau i wneud penderfyniadau ynghylch Caldicott - ac ni ddylid dirprwyo'r penderfyniadau hynny. | Mae cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo i'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth arwain y gwaith o gadw gwybodaeth sydd yn galluogi adnabod cleifion yn gyfrinachol, yn unol â 'Cyfrinachedd: Cod Ymarfer GIG Cymru'. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo i ddatblygu a chydgysylltu rhaglen diogelwch gwybodaeth gynhwysfawr a darparu gwybodaeth arbenigol a manwl ar draws ystod o weithdrefnau ac arferion gwaith er mwyn sicrhau cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a pholisïau deddfwriaethol eraill a pholisïau'r GIG. Mae angen cynllunio olyniaeth er mwyn sicrhau parhad yn y rôl hon, ar ôl i ddeiliad presennol y swydd ymddeol yn 2016 (cyfeirir ymhellach at hyn o dan Argymhelliad 3 isod). |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
| --- | --- | --- | --- |
| A2 | Do | Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli cadarn ar waith, ond mae angen cofnodi a chymeradwyo cyfrifoldebau Caldicott er mwyn creu eglurder ynghylch y trefniadau hyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y newid sydd ar ddod i swydd Gwarcheidwad Caldicott o fewn y Bwrdd Iechyd. | Mae fersiwn 2.6 y Polisi Diogelu Data a Chyfrinachedd (Adrannau 4 a 5) yn cynnwys manylion cyfrifoldebau diogelu data yr holl staff, o Warcheidwad Caldicott hyd at y Rheolwyr a hyd at yr holl aelodau staff.<br><br>Adran 4 – Er mwyn cydymffurfio, nodir bod yn rhaid i bob aelod o staff sicrhau cyfrinachedd.<br>'Gallai torri cyfrinachedd, defnydd amhriodol o gofnodion iechyd, datgelu gwybodaeth sydd yn galluogi adnabod unigolion neu gam-drin systemau cyfrifiadurol arwain at gamau disgyblu (gweler y Polisi Diogelwch Gwybodaeth am wybodaeth bellach). Gall hefyd godi amheuon ynghylch cofrestriad proffesiynol, a gallai arwain at achos cyfreithiol.'<br><br>Adran 5 – pennu'r cyfrifoldebau ychwanegol ar gyfer rolau / graddau penodol hy, Gwarcheidwad Caldicott, Pennaeth Gweithrediadau TGCh a phob rheolwr.<br>Yn yr adrannau a'r atodiadau canlynol, manylir ar agweddau penodol yn gysylltiedig â gofynion diogelu data a Caldicott. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A3 | Yn rhannol | Mae'r timau cefnogi cyfredol ar gyfer Caldicott, sydd yn cynnwys aelodau o'r timau Llywodraethu Gwybodaeth a diogelwch TG, yn cydweithio'n dda â'r Gwarcheidwad ond mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gan y timau hyn ddigon o adnoddau i gyflenwi rhaglen hyfforddi Caldicott ac i fonitro cynnydd yn erbyn egwyddorion Caldicott. | **Adnoddau**<br>Mae'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn cynnwys pedwar aelod o staff (3.2 Cyfwerth ag Amser Llawn) ac adroddir nad yw hyn yn ddigon i gyflawni holl dasgau'r tîm. Mae cyfarfod yn cael ei gynnal â'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwybodeg ynghylch adnoddau a chynllunio olyniaeth, gan y bydd y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth yn ymddeol yn nhymor y Gwanwyn 2016.<br>**Hyfforddiant**<br>Trafodir hyfforddiant o dan argymhelliad 4 isod.<br>**Monitro cynnydd yn erbyn Egwyddorion Caldicott**<br>Bob blwyddyn, bydd y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth a'r Rheolwr Diogelwch Gwybodaeth yn cwblhau/cyflwyno'r offeryn hunanasesu ar-lein, Egwyddorion Caldicott ar Waith (ECaW). Bydd Gwarcheidwad Caldicott yn cytuno ar adroddiad ar yr hunanasesiad a'i gyflwyno i'r PLIG.<br>Nid yw'r Ganolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (CWIGC), sydd yn darparu asesiad Llywodraethu Gwybodaeth allanol ac annibynnol yn Lloegr, yn berthnasol yng Nghymru. Gan hynny, ni cheir unrhyw feincnodi.<br>Sgôr ECaW i'r Bwrdd Iechyd yn 2014-15 yw 86 y cant (o gymharu â 79 y cant yn 2013-14). Mae'r sgoriau hyn o fewn y categori pedair seren, sef rhwng 76 a 90 y cant o gydymffurfiaeth. Mae hyn yn golygu bod yr ymatebion i'r asesiad yn dangos lefel dda o sicrwydd ynghylch risgiau llywodraethu gwybodaeth; ond mae gwaith i'w wneud o hyd. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A3 | Yn rhannol | | Wrth adolygu asesiad 2014-15 yn erbyn y 41 o safonau ECaW, casglwyd bod y Bwrdd Iechyd:<br>• yn cydymffurfio’n llwyr â 27 o safonau (o gymharu â 26 yn 2013-14);<br>• yn cydymffurfio’n rhannol â 13 o safonau (o gymharu ag 15 yn 2013-14); a<br>• heb gydymffurfio ag un safon (o gymharu â 0 yn 2013-14).<br>Cynllun gweithredu sydd yn cefnogi gwelliant yn manylu ar y camau unigol, pwy sydd yn gyfrifol amdanynt ac erbyn pryd y dylid eu cwblhau. Mae’r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth yn monitro’r cynllun gweithredu bob chwarter, ac adroddir wrth y PLlG ar gynnydd.<br>**Pecyn Cymorth LlG**<br>Mae’r Bwrdd Iechyd yn mynd ar drywydd defnyddio Pecyn Cymorth LlG y GIG yn Lloegr, drwy ei addasu i’w ddefnyddio yng Nghymru, ac wedi penodi staff i weithio tuag at fabwysiadu’r pecyn hwnnw. Drwy hyn, dylai’r Bwrdd Iechyd dderbyn adroddiadau sydd yn seiliedig ar dystiolaeth gadarnach, ar y cyd ag ECaW. Mae Rheolwr Prosiect ar waith i adolygu Pecyn Cymorth LlG ac i gynnal hunanaesiad yn erbyn Lefel 1, ac mae peilot wedi’i gynnal i ddechrau yn yr adran Wybodeg. Mae dadansoddiad bylchau wedi cael ei gynnal a chynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu o fewn TG i bontio’r bylchau. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A4 | Do | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal amrywiaeth o hyfforddiant ar Caldicott, ond mae'n cydnabod bod angen gwneud mwy yng nghyswllt hyfforddiant diweddaru cyffredinol a hyfforddiant swydd-benodol. | Mae hyfforddiant Caldicott ar gyfer staff yn orfodol bob dwy flynedd, ac mae hyfforddiant wyneb yn wyneb a hyfforddiant e-ddysgu ar gael. Gyda gweithlu sydd yn cynnwys cynifer ag 16,000, nid oes modd darparu hyfforddiant wyneb yn wyneb i bawb o fewn y raddfa amser hon. Mae'r tîm Llywodraethu Gwybodaeth (LlG) wedi datblygu ymagwedd ddeublyg i'w gwneud hi'n haws i staff dderbyn hyfforddiant; darparu sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb ynghyd â phecyn e-ddysgu y gall aelodau staff ei astudio ar adeg sydd yn gyfleus iddynt. Mae'r tîm LlG yn darparu'r hyfforddiant a manylion am yr hyfforddiant sydd ar gael, ond y rheolwyr llinell sydd yn gyfrifol am sicrhau bod gweithwyr yn manteisio ar yr hyfforddiant ac yn cydymffurfio â'r rheolau ynghylch hyfforddiant gorfodol. Nid ydym wedi adolygu cyfraddau defnydd a chydymffurfio, na chywirdeb cofnodion ESR yn rhan o'r adolygiad dilynol hwn.<br>**Hyfforddiant wyneb yn wyneb**<br>Cyflwynir yr hyfforddiant hwn gan y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth a'r Rheolwr Diogelwch Gwybodaeth, ac fe'i darperir ar ffurf sesiwn galw heibio. Cynhelir y rhain yn y pedwar prif ysbyty, ac anfonir hysbysiad at reolwyr cyffredinol ynghylch pryd y cynhelir sesiynau, gan gynnwys nodyn i'w hatgoffa y dylent sicrhau bod staff yn mynychu'r sesiynau lle bo modd. Adroddodd y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth fod problemau'n codi wrth geisio sicrhau gweithwyr i ryddhau gweithwyr shifft, gan nad yw staff hyfforddi ond yn gweithio oriau swyddfa arferol.<br>Bydd sesiynau hyfforddi adrannol hefyd yn cael eu darparu ar gais gan reolwyr cyffredinol. Mae'r sesiynau hyn wedi'u cynllunio'n arbennig i gyd-fynd ag anghenion penodol y maes. Darparodd y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth 82 o sesiynau hyfforddi adrannol ym mlwyddyn galendr 2015. Caiff yr hyfforddiant a gwblheir ei nodi yng nghofnod ESR y sawl sy'n mynychu'r cwrs.<br>**E-Ddysgu**<br>Darperir y cwrs e-ddysgu Llywodraethu Gwybodaeth gan GGGC. Er bod deunyddiau'r cwrs yn ddigonol o ran yr egwyddorion, nid yw'n cynnwys unrhyw gyfeiriadau at bolisïau na gweithdrefnau lleol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd polisïau ar waith ar gyfer Cymru gyfan erbyn diwedd 2016, gan alluogi safoni e-ddysgu. Caiff cofnodion ESR mynychwyr eu diweddaru'n awtomatig ar ôl cwblhau'r pecyn. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A4 | Do | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal amrywiaeth o hyfforddiant ar Caldicott, ond mae'n cydnabod bod angen gwneud mwy yng nghyswllt hyfforddiant diweddaru cyffredinol a hyfforddiant swydd-benodol. | **Polisïau sy'n gysylltiedig â Caldicott**<br>Mae nifer o bolisïau ar gael i staff sydd yn helpu i godi ymwybyddiaeth ynghylch diogelwch gwybodaeth. Mae'r rhain ar gael ar fewnrwyd y Bwrdd Iechyd.<br>**Llinell Gymorth Llywodraethu Gwybodaeth**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi lansio cyfeiriad e-bost cyffredinol er mwyn cael cymorth ar faterion LlG, lle gall staff anfon cwestiynau a holi am gyngor. Fe ddaeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2015, a rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddo ar dudalen fwletinau'r fewnrwyd, a chynnwys dolen iddo ar y dudalen fewnrwyd LlG.<br>**Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC/2015/036 - Adroddiad ICO ar Hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth ar draws Byrddau Iechyd Cymru.**<br>Derbyniodd y Bwrdd Iechyd ei adroddiad oddi wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ym mis Gorffennaf 2015, a datblygodd gynllun gweithredu mewn ymateb i'r adroddiad hwnnw. Rheolir y cynllun gweithredu gan y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth, ac fe'i cyflwynwyd er cymeradwyaeth yng nghyfarfod y PLlG mis Awst 2015. Adroddir ar gynnydd wrth y PLlG bob deufis. Ceir camau cysylltiedig, unigolyn cyfrifol a graddfa amser yn gysylltiedig â phob argymhelliad. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd - adroddir bod saith o'r 11 o gamau wedi'u cwblhau neu'n gysylltiedig â chynllun ailwampio e-ddysgu (sydd yn cael ei weithredu gan GGGC).<br>Cynlluniwyd hyfforddiant LlG allanol ar gyfer swyddogion llywodraethu gwybodaeth a Gwarcheidwad Caldicott ar gyfer diwedd mis Tachwedd 2015. Darparwyd y cwrs wythnos o hyd gan Blake Morgan yn Leeds, ac roedd yn cynnwys arholiad [2] BCS. Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer adroddiad yr ICO yn cadarnhau hyn fel cam gweithredu wedi'i gytuno. |

[2] BCS, Sefydliad Siartredig TG

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A5 | Do | Mae’r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o’r angen i roi gwybodaeth well i gleifion am y defnydd a wneir o’u gwybodaeth, a’r mynediad at yr wybodaeth honno. | Cafodd taflenni gwybodaeth ynghylch sut y defnyddir gwybodaeth cleifion a’u hawl i gael mynediad at yr wybodaeth honno eu rhannu ymhlith rheolwyr adrannol i’w harddangos wrth ddesgiau derbynfa. Byddai posteri ‘Eich Gwybodaeth - Eich Hawliau’ yn cael eu cynnwys ar fyrddau hysbysu ysbytai, ond dywedwyd wrthym nad oedd y posteri hyn, a oedd heb eu lamineiddio, wedi’u harddangos mewn ardaloedd clinigol oherwydd pryderon ynghylch risgiau halogi. Fel arall, cafodd copïau eu cylchredeg i Reolwyr Cyffredinol i’w dosbarthu i ardaloedd adrannol. Dylai’r Bwrdd Iechyd gynnal gwiriad cyfnodol o argaeledd gwybodaeth mewn ardaloedd cleifion, a diwygio’r wybodaeth honno i’w chadw’n gyfredol.<br>Mae cyngor ynghylch mynediad at gofnodion iechyd wedi’i gynnwys ar wefan y Bwrdd Iechyd o dan y tabiau Gwybodaeth Cleifion a Cysylltu â Ni/Rhyddid Gwybodaeth. Mae’n cynnwys gwybodaeth am sut i gyrchu cofnodion meddygol, ac yn darparu e-bost a chyfeiriadau post cyswllt. Y mae hefyd yn darparu cyswllt i wefan Galw Iechyd Cymru sydd yn esbonio’r defnydd o wybodaeth cleifion, y dull o’i chadw a sut i’w chyrchu. |
| A6 | Do | Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o’i gyfrifoldebau o ran Cyfrinachedd Gwybodaeth, ac mae wedi nodi ei wybodaeth cleifion a staff risg uchel. Fodd bynnag, mae angen iddo wneud mwy i nodi a oes angen asesu unrhyw ffynonellau gwybodaeth eraill o dan Egwyddorion Caldicott. | Mae cronfa ddata yn cael ei chreu o ddyfeisiau sydd yn cynnwys gwybodaeth bersonol a allai achosi risg o safbwynt Caldicott/diogelwch gwybodaeth. Dylai staff Llywodraethu Gwybodaeth gydweithio’n agos â’r adran cyfarpar electro-biofeddygol er mwyn sicrhau ystyriaeth lawn o ddata a ddelir yn y cyfarpar hwnnw o dan egwyddorion Caldicott.<br>Gwnaed argymhelliad tebyg yn adolygiad Gwybodaeth Wrth Gefn 2013 (argymhelliad 3):<br>‘Dylid cynnal adolygiad o’r dyfeisiau meddygol nad ydynt wedi’u cynnwys yn y gweithdrefnau wrth gefn ac adfer. Gallai’r dyfeisiau hyn hefyd achosi risg o safbwynt Caldicott (diogelwch data).’ Ceir manylion yn yr adran berthnasol isod. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A7 | Yn rhannol | Dylai’r Bwrdd Iechyd gwblhau asesiad a phrosesau blynyddol yn erbyn camau gweithredu a nodwyd yn yr asesiad o Egwyddorion Caldicott ar Waith (ECaW), a dylai geisio ei sicrwydd mewnol ei hun ynghylch yr hunanasesiad hwn drwy gynnal archwiliad mewnol. | Mae’r offeryn hunanasesu ar-lein, ECaW, yn parhau i gael ei gwblhau bob blwyddyn gan y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth a’r Rheolwr Diogelwch Gwybodaeth. Bydd Gwarcheidwad Caldicott yn cytuno ar yr adroddiad alldro a gynhyrchir yn sgil yr hunanasesiad, cyn ei gyflwyno i’r PLlG. Cafodd Archwilwyr Mewnol rywfaint o gyfle i gynnig sylwadau ar ddrafft adroddiad alldro 2015, gan eu bod yn bresennol yn y PLlG. Fodd bynnag, nid oes unrhyw drefniadau ffurfiol er mwyn cael sicrwydd mewnol ynghylch yr hunanasesiad. Gan nad yw’r PLlG na Gwarcheidwad Caldicott yn derbyn tystiolaeth, gallai’r Bwrdd Iechyd ystyried comisiynu adolygiad archwilio mewnol.<br>Mae peilot yn cael ei gynnal o’r Pecyn Cymorth LlG o fewn y gyfarwyddiaeth gwybodeg, ac yn cael ei ystyried ar raddfa genedlaethol i’w gyflwyno’n orfodol ar draws GIG Cymru. Gallai mabwysiadu’r pecyn cymorth hwnnw o fewn y bwrdd iechyd gynyddu’r gofyniad i reolwyr ddarparu tystiolaeth er mwyn dangos cydymffurfiaeth. |
| A8 | Yn rhannol | Dylid cyflwyno adroddiadau effeithiol i’r Bwrdd ynghylch y graddau y cydymffurfir ag Egwyddorion Caldicott, a dylid cynnwys sgôr Egwyddorion Caldicott ar Waith (ECaW) yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn sicrhau cydbwysedd wrth adrodd am unrhyw ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth yn yr adroddiad hwnnw. | Yn adroddiad alldro ECaW, nodir manylion cydymffurfio, ac ar ôl i Warcheidwad Caldicott gytuno ar yr adroddiad hwnnw, fe’i cyflwynir i’r PLlG, fel y nodir uchod. Defnyddir adroddiadau i is-bwyllgor y Bwrdd fel ffordd o roi sicrwydd i’r Bwrdd, ond nid yw’r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys y sgôr ECaW mwyach, na manylion y Digwyddiadau Diogelwch Gwybodaeth. Bydd y Pecyn Cymorth LlG yn disodli adroddiad alldro ECaW ar ôl rhoi’r pecyn hwnnw ar waith yn llwyr. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A9 | Naddo | Mae’r Bwrdd Iechyd yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth am berfformiad i oleuo gwelliannau, ond mae angen iddo wneud mwy er mwyn canfod ffyrdd o feincnodi ei gynnydd yn erbyn sefydliadau eraill tebyg. | Ni chynhelir unrhyw waith meincnodi swyddogol yn gysylltiedig ag egwyddorion Caldicott ar hyn o bryd.<br>Mae’r Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (CWIGC) yn cynnig cyfle asesu a meincnodi Llywodraethu Gwybodaeth allanol yn Lloegr, ond nid yw’r Ganolfan honno’n berthnasol yng Nghymru. Fodd bynnag, bydd cyfle i feincnodi yn y dyfodol yn sgil mabwysiadu’r Pecyn Cymorth LlG ar draws GIG Cymru. Yn y cyfamser, fodd bynnag, gallai’r Bwrdd Iechyd wneud mwy i ganfod dulliau meincnodi. |

# Gwybodaeth wrth gefn

## Diwygiwyd trefniadau gwybodaeth wrth gefn I adlewyrchu’r amgylchedd rithiwr newydd a chaiff eu mireinion gan y catalog gwasanaethau newydd, ond ni cheir trefniadau wrth gefn ar gyfer data a ddelir ar ddyfeisiau meddygol

Arddangosyn 6: asesiad o’r cynnydd a waned wrth weithredu’r argymhellion yn ymwneud â darpariaethau wrth gefn ynghylch gwybodaeth

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A1 | Yn rhannol | Dylid cymeradwyo newidiadau i’r gweithdrefnau gweithredu safonol (SOPs), gan gynnwys newidiadau i’r rwtinau wrth gefn, yn swyddogol er mwyn sicrhau bod yr holl bartïon yn ymwybodol o’r newidiadau a wnaed ac yn cytuno ag unrhyw rwtinau wrth gefn newydd, newidiadau o ran cyfrifoldeb ac ati. | Mae’r rhan fwyaf o weinyddion y Bwrdd Iechyd wedi cael eu troi’n rhithiol, ac mae CommVault yn rheoli darpariaethau wrth gefn.<br>Mae Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs) ar waith. Gweithdrefnau cyffredinol yw’r SOPs yn hytrach na rhai system-benodol, ee SOP ar gyfer systemau SQL[3] , er bod rhai systemau unigol i’w cael, ee, Myrddin, y system gweinyddu cleifion genedlaethol. Mae’r rheolwyr TG lleol yn cymeradwyo’r SOPs cyffredinol. Nid oes gan staff TG leol unrhyw gyfrifoldeb dros y gweinyddion, ond maent yn gweithredu system rannol wrth gefn.<br>Ceir rhai systemau trydydd parti a gaiff eu rheoli’n llawn gan drydydd parti, ac nad oes gan y gwasanaethau TG unrhyw ran yn ddarpariaeth wrth gefn, er enghraifft:<br>• PACS AGFA<br>• PACS Carestream<br>• PACS Fuji |

[3] SQL yw’r saith safonol ar gyfer systemau rheoli cronfeydd data perthynol. Defnyddir SQL i gyflawni tasgau fel diweddaru neu adalw data ar gronfa ddata. Mae llawer o systemau rheoli cronfa ddata perthynol cyffredin yn defnyddio SQL, gan gynnwys  Oracle.

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A1 | Yn rhannol | Dylid cymeradwyo newidiadau i'r gweithdrefnau gweithredu safonol (SOPs), gan gynnwys newidiadau i'r rwtinau wrth gefn, yn swyddogol er mwyn sicrhau bod yr holl bartïon yn ymwybodol o'r newidiadau a wnaed ac yn cytuno ag unrhyw rwtinau wrth gefn newydd, newidiadau o ran cyfrifoldeb ac ati. | Ar hyn o bryd, ceir safle Sharpoint wrth gefn lle cedwir gwybodaeth wrth gefn CommVault Gall perchnogion systemau weld eu darpariaeth wrth gefn, ac fe geir adroddiadau ar-lein. Anfonir adroddiadau llwyddo/methu tasgau wrth gefn at rai perchnogion systemau.Mae newidiadau i ddarpariaethau wrth gefn yn cael eu cofnodi ar y Cofnod Newidiadau ar y safle Sharepoint TG, ond byddant yn cael eu cofnodi yn y catalog gwasanaeth sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Anaml iawn y bydd perchnogion systemau yn gorfod ymwneud â newidiadau i amserlenni darpariaeth wrth gefn ar gyfer systemau rhithiol, gan fod copi wrth gefn o'r systemau yn cael ei greu bob dydd. Mae darpariaeth wrth gefn CommVault yn golygu copïo o ddisg i ddisg (mewn ystafell ar wahân ar yr un safle) a chludo ail gopi oddi ar y safle. Mae natur copïau wrth gefn ciplun yn golygu nad effeithir ar y gwasanaeth, felly mae modd gwneud copi wrth gefn ar unrhyw bryd.<br>Mae gwasanaethau TG lleol yn datblygu catalog gwasanaethau Sharepoint fydd yn ysgogi'r broses o greu copi wrth gefn ac adfer, ac a fydd yn cadw'r holl ddogfennau wrth gefn ar gyfr pob system, llifoedd gwaith (sydd yn cael eu datblygu) a SOPS (cyffredinol ac ar gyfer systemau unigol). Bydd hefyd yn cysylltu â'r amserlen wrth gefn ar CommVault wedi i honno gael ei datblygu'n llawn.<br>Pan fydd perchnogion gwasanaethau wedi'u nodi, bydd proses llif gwaith yn cael ei datblygu i hysbysu perchennog y gwasanaeth am newid i gydran o'r gwasanaeth. Byddai newidiadau i gopïau wrth gefn wedi'u cynnwys yn rhan o hyn.<br>Nodweddion llwyddo/methu creu copi wrth gefn yn nagosyddion perfformiad allweddol (KPI) y gwasanaethau TG. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A2 | Yn rhannol | Dylid creu cofrestr ffurfiol o'r profion AT a gynhelir yn rhan o waith cynnal arferol y system (hy, creu systemau profi) er mwyn canfod unrhyw systemau nad ydynt yn cael eu profi i ddibenion AT bob blwyddyn o leiaf. Yn dilyn hyn, dylid cynnwys y systemau hyn ar amserlen ar gyfer profion AT rheolaidd. | Bydd ffeiliau, ffolderi, cronfeydd data a gweinyddion yn cael eu hadfer ar sail ad hoc pan fydd problem yn codi, ar gais, neu wrth ddefnyddio caledwedd newydd. Cedwir gweithdrefnau adfer (a rhestr o'r adferiadau a wnaed) ar Sharepoint, a defnyddir y catalog gwasanaeth i gyfeirio atynt pan fydd hwnnw wedi'i gwblhau.<br>Fodd bynnag, adroddodd rheolwyr TG nad oes modd cynnal prawf blynyddol ar bob system, gan fod rhwydwaith y Bwrdd Iechyd yn cynnwys dros 300 o systemau. Dylai'r Bwrdd Iechyd gadw cofrestr o'r profion AT a gynhelir yn rhan o waith cynnal systemau arferol, a llunio amserlen o brofion ar systemau allweddol ar sail asesiad risg. |

| Cyfeirnod | Gweithredwyd | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A3 | Naddo | Dylid cynnal adolygiad o'r dyfeisiau meddygol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gweithdrefnau ar gyfer darpariaethau wrth gefn ac adfer. Gallai'r dyfeisiau hyn hefyd achosi risg o safbwynt Caldicott (diogelwch data). | Nid oedd staff EBME yn ymwybodol o'r argymhelliad hwn, ac nid ydynt wedi bod yn ymwneud ag unrhyw gamau sydd yn deillio ohono. O ganlyniad i hyn, cafodd hyd ei gynnwys fel argymhelliad ar agenda'r Pwyllgor Dyfeisiau Meddygol, a gyfarfu am y tro cyntaf o dan y trefniadau rheoli newydd ar 13 Tachwedd 2015. Caiff y cyfarfod ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Meddygol, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r pedwar ysbyty acíwt, o ofal sylfaenol ac iechyd meddwl.<br>Gallai'r cyfarpar meddygol gynnwys data sydd yn gysylltiedig â chleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r cwmni Hilditch i gael gwared â chyfarpar meddygol yn ddiogel. Hilditch yw'r darparydd contract Cymru gyfan ers sawl blwyddyn, ac fe adnewyddwyd y contract ym mis Mai 2015, yn dilyn tendr cystadleuol. Mae Hilditch yn anfon tystysgrifau i ddangos bod cyfarpar wedi'i lanhau cyn ei werthu ymlaen.<br>Mae gan EBME gronfa ddata cyfarpar meddygol sydd yn cynnwys 37,823 o ddyfeisiau, a gall lunio rhestr o gyfarpar a allai ddal data sydd yn galluogi adnabod cleifion. Gellir defnyddio cofau bach, gyriannau allanol neu ysgrifenwyr DVD i greu copi wrth gefn o Ddyfeisiau Meddygol sydd yn cynnwys data sy'n galluogi adnabod cleifion, ond nid oes gan y Bwrdd Iechyd ddarlun cyffredinol o'r sefyllfa gyfredol.<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi'r holl ddyfeisiau meddygol nad ydynt wedi'u cynnwys o dan gyfundrefn data wrth gefn y Gwasanaethau TG, sefydlu polisi ar gyfer data wrth gefn a chyflwyno canllawiau priodol i'r staff. Fodd bynnag, ymddengys nad oes cytundeb ynghylch cyfrifoldebau'r EBME am y cyfarpar meddygol yn y cyd-destun hwn a chyfrifoldeb y gwasanaeth TG o safbwynt diogelwch TG. Oherwydd y rhwystr hwn, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu ymdrin â'r broblem hyd yma.<br>Mae angen ystyried a rhoi cyfrif am oblygiadau hyn o ran egwyddorion Caldicott hefyd, fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn. |

# Atodiad 1

## Argymhellion sydd yn weddill o adolygiadau TGCh 2012 a 2013: prif faterion

Arddangosyn 7: y prif faterion yn ymwneud ag argymhellion sydd yn weddill

| Argymhelliad | Materion allweddol yn 2015 |
|---|---|
| **Ansawdd Data** | |
| DQ A2<br>(bodlonwyd yn rhannol) | Mae angen ymwreiddio'n iawn y newidiadau diweddar i'r trefniadau llywodraethu gwybodaeth a gwaith cyfredol i sefydlu ymagweddau newydd at ansawdd data (gan gynnwys y 'nod barcud').<br>Mae nifer staff y Tîm Ansawdd Data wedi gostwng ers 2012. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau digon o adnoddau staff er mwyn cyflawni'r holl dasgau'n ddigonol o fewn ei gwmpas cyfrifoldeb, gan gynnwys glanhau data a darparu hyfforddiant ar ansawdd data. |
| DQ A4<br>(bodlonwyd yn rhannol) | Cafwyd cynnydd gyda llawer o waith i ymdrin â chofnodion electronig dyblyg, ac mae achos busnes am ddatrysiad sganio ar gyfer cofnodion papur yn cael ei ddatblygu. Ond ar hyn o bryd, mae cofnodion dyblyg (electronig a phapur) yn barhau i fod yn risg yr hysbysir amdano ar y gofrestr risg. |
| **Adfer ar ôl Trychineb (AT) TG a Pharhad Busnes (PB)** | |
| DRBC A1<br>(bodlonwyd yn rhannol) | Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi unrhyw systemau clinigol allweddol/o bwys na chynhaliwyd prawf AT arnynt, a sicrhau bod y profion priodol yn cael eu cynnal. |
| DRBC A2<br>(bodlonwyd yn rhannol) | Mae angen ymwreiddio cynlluniau parhad busnes cofnodedig a phrofion PB rheolaidd mewn unedau gweithredol yn llawn, yng nghyd-destun strwythurau newydd y sefydliad. |
| **Trefniadau Caldicott** | |
| CR1<br>(heb ei fodloni eto) | Ni cheir dirprwy ar gyfer Gwarcheidwad Caldicott er mwyn sicrhau parhad ar gyfer unigolyn ar lefel uwch yn y sefydliad sydd yn gyfrifol am ddiogelu cyfrinachedd gwybodaeth cleifion a defnyddwyr gwasanaeth ac am alluogi trefniadau priodol i rannu gwybodaeth.<br>Mae angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd nodi Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (USRG), a ddylai fod yn unigolyn gwahanol i Warcheidwad Caldicott. |

| Argymhelliad | Materion allweddol yn 2015 |
|---|---|
| **Trefniadau Caldicott** | |
| CR3<br>(bodlonwyd yn rhannol) | Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n frwd i weithredu'r Pecyn Cymorth LlG, ond mae capasiti'r tîm llywodraethu gwybodaeth yn brin, ac er bod sgorau asesu ECaW yn dangos efel dda o sicrwydd o ran risgiau llywodraethu gwybodaeth, mae gwaith i'w wneud o hyd. |
| CR6<br>(heb ei fodloni eto) | Dylai staff Llywodraethu Gwybodaeth gydweithio'n agos â'r adran cyfarpar electro-biofeddygol er mwyn sicrhau ystyriaeth lawn o ddata a ddelir yn y cyfarpar hwnnw o dan egwyddorion Caldicott. |
| CR7<br>(bodlonwyd yn rhannol) | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cwblhau asesiad blynyddol o'r Egwyddorion Caldicott ar Waith (ECaW), ond nid oes unrhyw drefniadau ffurfiol er mwyn cael sicrwydd mewnol ynghylch yr hunanasesiad. Gan nad yw'r PLlG na Gwarcheidwad Caldicott yn derbyn tystiolaeth, gallai'r Bwrdd Iechyd ystyried comisiynu adolygiad archwilio mewnol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen casglu tystiolaeth a diwygio trefniadau yn sgil gweithredu'r Pecyn Cymorth LlG. Nid yw'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys gwybodaeth am y sgôr ECaW nac am Ddigwyddiadau Diogelwch Gwybodaeth. |
| CR8<br>(bodlonwyd yn rhannol) | Mae adroddiad alldro ECaW hefyd yn nodi'r gyfradd cydymffurfio, ac ar ôl i Warcheidwad Caldicott gytuno ar yr adroddiad hwnnw, fe'i cyflwynir i'r PLlG, fel y nodir uchod. Defnyddir adroddiadau i is-bwyllgor y Bwrdd fel ffordd o roi sicrwydd i'r Bwrdd, ond nid yw'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys y sgôr ECaW mwyach, na manylion y Digwyddiadau Diogelwch Gwybodaeth. |
| CR9<br>(heb ei fodloni eto) | Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth am berfformiad i oleuo gwelliannau, ond mae angen iddo wneud mwy er mwyn canfod ffyrdd o feincnodi ei gynnydd a'i safle. |

| Argymhelliad | Materion allweddol yn 2015 |
| --- | --- |
| **Gwybodaeth Wrth Gefn** | |
| IB-up A1<br>(bodlonwyd yn rhannol) | Mae'r rhan fwyaf o'r gweinyddion wedi cael eu troi'n rhithiol, ac mae CommVault yn rheoli darpariaethau wrth gefn, ac mae Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs) ar waith ar gyfer systemau TG.<br>Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu catalog gwasanaeth Sharepoint er mwyn gwella'r trefniadau cyfredol, ond nid yw hwnnw'n gyflawn eto. |
| IB-up A2<br>(bodlonwyd yn rhannol) | Mae gweithdrefnau adfer ar waith, a chofnod yn cael ei gadw o adferiadau. /Ni chafwyd bod profion AT blynyddol yn ddichonadwy gan fod rhwydwaith y Bwrdd Iechyd yn cynnwys dros 300 o systemau, ond dylai'r Bwrdd Iechyd gadw cofrestr o'r profion AT a gynhaliwyd, a llunio amserlen o brofion AT ar gyfer systemau allweddol ar sail asesiad risg. |
| IB-up A3<br>(heb ei fodloni eto) | Dylai'r Bwrdd iechyd nodi'r holl ddyfeisiau meddygol nad ydynt wedi'u cynnwys o dan gyfundrefn data wrth gefn y Gwasanaethau TG, sefydlu polisi ar gyfer data wrth gefn a chyflwyno canllawiau priodol i'r staff. |

# Atodiad 2

## Ymateb y Rheolwyr

Arddangosyn 8: Mae ymateb rheoli'r Bwrdd Iechyd yn amlinellu sut mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ymateb i'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn yn cael ei draethu yn yr atodiad hwn

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ budd bwriadedig | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion 2016** | | | | | |
| A1 2016 | **Ansawdd Data**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r trefniadau staffio ar gyfer y Tîm Ansawdd Data a sicrhau bod adnoddau staffio digonol. | Ceir adnoddau digonol i'r Tîm Ansawdd Data gyflawni ei holl gyfrifoldebau a thasgau, gan gynnwys glanhau data/rhoi hyfforddiant ar ansawdd data. | • Mae'r trefniadau staffio ar gyfer y Tîm Ansawdd Data yn cael eu hadolygu'n barhaus a chymerwyd camau gweithredu i fynd i'r afael â diffygion a nodwyd. Oherwydd cyfyngiadau ariannol nid oes modd neilltuo staff ychwanegol i'r tîm bob amser felly mae ffyrdd amgen o weithio wedi cael eu rhoi ar waith ac mae camau gweithredu wedi cael eu cymryd i ymgorffori egwyddorion Ansawdd Data ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd.<br>• Mae strwythur a rolau a chyfrifoldebau'r tîm gwybodeg ehangach wedi cael eu hadolygu gyda'r nod o gynyddu nifer y staff y mae swyddogaeth Ansawdd Data wedi'i chynnwys yn eu rôl.<br>• Cyflwynwyd rôl arbenigwr cynnyrch ac mae'n gyfrifol am ansawdd data a hyfforddiant mewn arferion gwybodaeth da. | Hydref 2016 | Helen Thomas<br>(Pennaeth Gwasanaethau Gwybodaeth) |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ budd bwriadedig | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion 2016** | | | | | |
| A1 2016 | **Ansawdd Data**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r trefniadau staffio ar gyfer y Tîm Ansawdd Data a sicrhau bod adnoddau staffio digonol. | Ceir adnoddau digonol i'r Tîm Ansawdd Data gyflawni ei holl gyfrifoldebau a thasgau, gan gynnwys glanhau data/rhoi hyfforddiant ar ansawdd data. | • Mae arbenigwr cynnyrch band 6 yn y Prif Fynegai Cleifion wedi cael ei recriwtio ac mae ganddo gyfrifoldebau penodol am ddemograffeg cleifion, lleihau nifer y cofnodion dyblyg a gwella ansawdd data yn y Systemau Gweinyddu Cleifion.<br>• Mae'r Bwrdd Iechyd yn treialu Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth ym maes Gwybodeg. Ar ôl gwerthusiad caiff penderfyniad ar ei gyflwyno ymhellach ei wneud gan y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth. Bydd ymgorffori'r defnydd o'r pecyn cymorth yn cynyddu nifer y staff sydd â chyfrifoldeb am Ansawdd Data ac sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb am faterion Ansawdd Data yn eu hadrannau eu hunain.<br>• Er mwyn datblygu'r broses dreialu, nodwyd Rheolwr Prosiect ar gyfer y pecyn cymorth Llywodraethu Gwybodaeth o fewn yr adnoddau cyfredol. | Hydref 2016 | Helen Thomas<br>(Pennaeth Gwasanaethau Gwybodaeth) |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/<br>budd bwriadedig | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion 2016** | | | | | |
| A1 2016 | **Ansawdd Data**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r trefniadau staffio ar gyfer y Tîm Ansawdd Data a sicrhau bod adnoddau staffio digonol. | Mae adnoddau digonol er mwyn i'r Tîm Ansawdd Data gyflawni ei holl gyfrifoldebau a thasgau, gan gynnwys glanhau data/rhoi hyfforddiant ar ansawdd data. | **Camau Gweithredu:**<br>• Caiff asesiad o'r gofynion o ran adnoddau i weithredu pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth ym maes Gwybodeg ei gyflwyno i'r bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth sydd newydd ei ffurfio ym mis Hydref 2016.<br>• Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diwygio rôl y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth er mwyn sicrhau bod ganddo ddigon o awdurdod a chynrychiolaeth dda o bob rhan o'r Sefydliad.<br>Caiff pob Uned Gyflawni ei chynrychioli a bydd yn rhoi sicrwydd ynglŷn â'u blaenoriaethau lleol a'u strwythurau adrodd ar gyfer materion Llywodraethu Gwybodaeth ac Ansawdd Data. | Hydref 2016 | Helen Thomas<br>(Pennaeth Gwasanaethau Gwybodaeth) |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/<br>budd bwriadedig | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion 2016** | | | | | |
| A2 2016 | **Gwaith cynllunio Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi unrhyw ddeunydd/systemau clinigol allweddol nad ydynt wedi cael eu profi o ran Adfer ar ôl Trychineb a sicrhau eu bod yn cael eu profi'n briodol. | Ceir profion Adfer ar ôl Trychineb priodol ar gyfer pob deunydd/system glinigol allweddol. | • Nodi pob system glinigol allweddol a chreu amserlen brofi barhaus.<br>• Profi'r systemau hynny'n unol â'r amserlen brofi y cytunwyd arni. | Ionawr 2017<br><br>I'w gyflawni ar ôl asesiad o'r gofynion | Carl Mustad<br>(Pennaeth Gweithrediadau TGCh) |
| A3 2016 | **Caldicott**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO), fel rôl sydd ar wahân i rôl y Gwarcheidwad Caldicott. | Yn ogystal â gwarcheidwad Caldicott a enwyd, mae gan y sefydliad SIRO ar wahân a enwyd. | Cwblhawyd<br>SIRO Hamish Laing Cyfarwyddwr Meddygol.<br><br>Gwarcheidwad Calidicot Sara Hayes Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd. | Cwblhawyd | |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/<br>budd bwriadedig | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion 2016** | | | | | |
| A4 2016 | **Caldicott**<br>Dylai staff Llywodraethu Gwybodaeth weithio'n agos gyda'r adran cyfarpar biomeddygol electronig er mwyn sicrhau bod y data a ddelir mewn dyfeisiau meddygol yn cael eu hystyried yn llawn o dan egwyddorion Caldicott. | Caiff egwyddorion Caldicott eu cymhwyso at ddata a ddelir ar ddyfeisiau meddygol lle y gellir adnabod claf. | Mae'r Pwyllgor Dyfeisiau Meddygol wedi diweddaru ei Gylch Gorchwyl i gynnwys cynrychiolaeth gan staff Llywodraethu Gwybodaeth.<br>Bydd y Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth sydd newydd ei phenodi yn aelod o'r pwyllgor Dyfeisiau Meddygol o fis Ionawr 2017. | Ionawr 2017 | Siân Richards<br>(Pennaeth Cofnodion Iechyd) |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ budd bwriadedig | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion 2016** | | | | | |
| A5 2016 | **Gwybodaeth Wrth Gefn**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi pob dyfais feddygol nas cwmpesir o dan drefniadau wrth gefn Gwasanaethau TG, pennu polisi gwybodaeth wrth gefn a rhoi canllawiau priodol i'r staff. | Mae trefniadau gwybodaeth wrth gefn yn ystyried ac yn cynnwys gwybodaeth a ddelir ar ddyfeisiau meddygol perthnasol. | Mae'r Tîm Cyfarpar Meddygol yn cwblhau adolygiad o'r holl ddyfeisiau sy'n bodoli erbyn diwedd mis Medi 2016. Caiff y canlyniad ei drafod gan y pwyllgor dyfeisiau meddygol a chaiff cynllun gweithredu priodol ei ddatblygu. | Chwefror 2017 | Mike Rowlands, (Pennaeth MEMS), Carl Mustad<br>(Pennaeth Gweithrediadau TGCh) a Siân Richards<br>(Pennaeth Cofnodion Iechyd) |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/<br>budd bwriadedig | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion ar gyfer camau gweithredu parhaus o archwiliad 2012 o ansawdd data** | | | | | |
| A2 Ansawdd Data (a gyflawnwyd yn rhannol) | Sicrhau bod trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth yn effeithlon, yn effeithiol ac yn cynnwys ansawdd data fel y bo'n briodol:<br>• sicrhau bod strwythurau atebolrwydd a phriod gyfrifoldebau pob aelod o staff ar gyfer Ansawdd Data yn cael eu cyfleu'n glir a'u deall gan bawb; a<br>• monitro trefniadau Llywodraethu Ansawdd Data'r Bwrdd Iechyd a'u hadolygu o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol. | Mae trefniadau llywodraethu gwybodaeth diwygiedig a'r dulliau newydd o ymdrin ag ansawdd data wedi'u hymgorffori'n llawn.<br><br>Mae gan y Tîm Ansawdd Data ddigon o adnoddau i gyflawni ei holl gyfrifoldebau (gan gynnwys glanhau data a rhoi hyfforddiant ar ansawdd data).<br>**Gweler A1 2016** | **Gweler A1 2016 uchod**<br>• Mae'r Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth wedi'i lunio ar ôl gweithdy ym mis Gorffennaf 2016. Bydd y bwrdd diwygied yn cyfarfod am y tro cyntaf ym mis Hydref 2016 a chaiff y cylch gorchwyl diwygiedig ei gymeradwyo. Bydd y Bwrdd yn cymeradwyo'r cynlluniau blynyddol ar gyfer Ansawdd Data a Llywodraethu Gwybodaeth ac yn adolygu cynnydd.<br>• Bydd y Bwrdd yn nodi swyddogion arweiniol ym mhob un o'r Unedau Cyflawni er mwyn sicrhau y caiff materion sy'n ymwneud ag Ansawdd Data a Llywodraethu Gwybodaeth eu hymgorffori mewn strwythurau lleol a'u bod yn cael sylw rheolaidd ym mhrosesau adolygu a chyfarfodydd rheolwyr lleol. | Hydref 2016 | Gareth Westlake<br>(Rheolwr Gwybodeg Busnes) |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ budd bwriadedig | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion ar gyfer camau gweithredu parhaus o archwiliad 2012 o ansawdd data** | | | | | |
| A4 Ansawdd Data (a gyflawnwyd yn rhannol) | Lleihau data dyblyg amhriodol ar ddemograffeg cleifion o fewn systemau allweddol (megis Systemau Gweinyddu Cleifion, RADIS, RadCentre a systemau eraill) a hyrwyddo'r defnydd cyson o rifau'r GIG a dynodwyr adnabod cleifion. | Mae cofnodion dyblyg (electronig a phapur) a'r risgiau cysylltiedig yn cael eu lleihau i'r eithaf. | • Mae gwaith wedi cael ei wneud gan yr Arbenigwr Cynnyrch sy'n ymwneud â'r Prif Fynegai Cleifion i gadarnhau maint problem cofnodion dyblyg ac mae cymorth wedi cael ei roi i'r adrannau perthnasol er mwyn lleihau nifer y cofnodion dyblyg sy'n cael eu creu. Cyflwynir adroddiadau i'r adrannau bob mis er mwyn mesur cynnydd a mynd i'r afael â meysydd sy'n creu cofnodion dyblyg.<br>• Cyflwynwyd Hysbysiad Newid Set Ddata (DSCN 2015/06 [4][1]) ym mis Tachwedd 2015 er mwyn caniatáu'r defnydd o Rif y GIG fel safon weithredol genedlaethol. Mae hwn yn cyflwyno gofyniad i ddefnyddio Rhif y GIG ym mhob system a ddefnyddir i gefnogi'r gwaith o gomisiynu neu ddarparu gwasanaethau'r GIG sy'n dal gwybodaeth ddemograffig cleifion erbyn mis Ebrill 2020, gyda'r nod o leihau cofnodion dyblyg ymhellach a gwella Ansawdd Data. Mae'r gwaith o hyrwyddo rhifau'r GIG yn parhau.<br>• Mae'r gwaith o ymdrin â'r cofnodion wedi'u drysu, tua 3,000 o gofnodion (cleifion gwahanol yn dal yr un rhif GIG) yn parhau, ac mae 100 o gofnodion yn weddill, ac felly'n lleihau risg glinigol. | Parhaus | |

[4] Bwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru, **Cylchlythyr Iechyd Cymru (WCH) 2015 (049) – Safon Weithredol Rhifau'r GIG**, 6 November 2015.

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ budd bwriadedig | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion ar gyfer camau gweithredu parhaus o archwiliad 2012 o Adfer TG ar ôl Trychineb (DR) a Pharhad Busnes (BC)** | | | | | |
| DRBC A1<br>(a gyflawn wyd yn rhannol) | Datblygu'r broses gyffredinol o gydlynu darpariaeth Adfer ar ôl Trychineb TGCh ar gyfer y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau blaenoriaethau clir o ran trefn adfer systemau os bydd methiant ar raddfa fawr. Profi'r trefniadau hyn pan fydd y strategaeth brofi wedi'i chwblhau er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad. | Dylai unrhyw ddeunydd/system au clinigol allweddol nad ydynt wedi cael eu profi o ran Adfer ar ôl Trychineb gael eu profi'n briodol.<br>**Gweler A2 2016** | Gweler A2 2016 | Ionawr 2017 | Carl Mustad<br>(Pennaeth Gweithrediadau TGCh) |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/<br>budd bwriadedig | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion ar gyfer camau gweithredu parhaus o archwiliad 2012 o Adfer TG ar ôl Trychineb (DR) a Pharhad Busnes (BC)** | | | | | |
| DRBC A2<br>(a gyflawn wyd yn rhannol) | Atgyfnerthu gwaith cynllunio Parhad Busnes drwy wneud y canlynol:<br>• gweithredu cofrestr Parhad Busnes gorfforaethol gyffredinol y Bwrdd Iechyd sy'n cydlynu pob cynllun adrannol. Dylai'r broses hon gynnwys ymgysylltu gweithredol â phob adran<br>• egluro a neilltuo perchenogaeth o Barhad Busnes ar lefel adrannau gwasanaethau clinigol.<br>• datblygu a dogfennu cynlluniau Parhad Busnes systemau clinigol.<br>• cwblhau cynllun Parhad Busnes Fferylliaeth, lle nad yw'r adran ar 'safle heb fod ar gael' wedi'i chwblhau.<br>• llunio cynllun Parhad Busnes TG a strategaeth brofi Parhad Busnes yn derfynol a phrofi'r trefniadau ar ôl eu gweithredu er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad. | Mae cynlluniau parhad busnes wedi'u dogfennu a phrofion parhad busnes rheolaidd mewn unedau gweithredol wedi'u hymgorffori'n llawn yng nghyd-destun y strwythurau sefydliadol newydd. | • Ceir cynlluniau parhad busnes corfforaethol ac mae'r rhain ar waith i liniaru digwyddiadau a all effeithio ar y Bwrdd Iechyd cyfan ac maent wedi'u cynnwys mewn Proses Parhad Busnes Gorfforaethol ac wedi'u mapio yn erbyn risgiau allweddol, ac felly ceir cofrestru. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys Fframwaith Pandemig, Anafusion Wedi'u Halogi, Safleoedd Amgen ar gyfer Meysydd Gofal Critigol, Gweithdrefnau Diogelwch, e.e. Cau i Lawr, cael bygythiad o fom ac ati. | Rhagfyr 2017 | Joanne Davies (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth a Phartneriaethau ) a Karen Jones (Swyddog Cynllunio Brys) |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/<br>budd bwriadedig | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion ar gyfer camau gweithredu parhaus o archwiliad 2012 o Adfer TG ar ôl Trychineb (DR) a Pharhad Busnes (BC)** | | | | | |
| DRBC A2<br>(a gyflawn wyd yn rhannol) | Atgyfnerthu gwaith cynllunio Parhad Busnes drwy wneud y canlynol:<br>• gweithredu cofrestr parhad busnes gorfforaethol gyffredinol y Bwrdd Iechyd sy'n cydlynu pob cynllun adrannol. Dylai'r broses hon gynnwys ymgysylltu gweithredol â phob adran<br>• egluro a neilltuo perchenogaeth o Barhad Busnes ar lefel adrannau gwasanaethau clinigol.<br>• datblygu a dogfennu cynlluniau Parhad Busnes systemau clinigol<br>• cwblhau cynllun Parhad Busnes Fferylliaeth, lle nad yw'r adran ar 'safle heb fod ar gael' wedi'i chwblhau. | Mae cynlluniau parhad busnes wedi'u dogfennu a phrofion parhad busnes rheolaidd mewn unedau gweithredol wedi'u hymgorffori'n llawn yng nghyd-destun y strwythurau sefydliadol newydd. | **Camau Gweithredu**<br>• Mae proses Parhad Busnes wedi'i chymeradwyo gan Grŵp Strategaeth EPRR ac mae'n cynnwys cofrestr o'r cynlluniau uchod. Mae amserlen ar waith i adolygu a diweddaru pob un o'r cynlluniau hyn. Mae Parhad Busnes TG wedi'i gynnwys yn y gofrestr hon ac mae wedi'i nodi ar amserlen y swyddog arweiniol dynodedig i'w diweddaru. Bwriedir llunio rhaglen ymarfer ar gyfer y cynlluniau hyn yn ystod 2017. Mae pob un o'r cynlluniau hyn wedi'u cynnwys ar y dudalen gwe ar gyfer digwyddiadau mawr ac maent yn cael eu storio mewn gyriant canolog ar gyfer digwyddiadau mawr; mae gan bob defnyddiwr e-bost fynediad. Ceir 'copïau caled' ym mhob un o'r canolfannau cydgysylltu lle caiff proses Rheoli Arian ei chynnal. | Rhagfyr 2017 | Joanne Davies (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth a Phartneriaethau) a Karen Jones<br>(Swyddog Cynllunio Brys) |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/<br>budd bwriadedig | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion ar gyfer camau gweithredu parhaus o archwiliad 2012 o Adfer TG ar ôl Trychineb (DR) a Pharhad Busnes (BC)** | | | | | |
| DRBC A2<br>(a gyflawnwyd yn rhannol) | Atgyfnerthu gwaith cynllunio Parhad Busnes drwy wneud y canlynol:<br>• llunio cynllun Parhad Busnes TG a strategaeth brofi Parhad Busnes yn derfynol a phrofi'r trefniadau ar ôl eu gweithredu er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad. | Mae cynlluniau parhad busnes wedi'u dogfennu a phrofion parhad busnes rheolaidd mewn unedau gweithredol wedi'u hymgorffori'n llawn yng nghyd-destun y strwythurau sefydliadol newydd | **Camau Gweithredu**<br>• Mae Strategaeth Parodrwydd Cydnerthedd ac Ymateb mewn Argyfwng (EPRR) wedi cael ei datblygu a'i chymeradwyo gan y Bwrdd sy'n cynnwys nodi rhwymedigaethau'r Bwrdd Iechyd o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl ac mae parhad busnes wedi'i gynnwys ynddi. Mae rhaglen waith ar waith ac mae'r Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd EPRR. | | |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/<br>budd bwriadedig | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion ar gyfer camau gweithredu parhaus o archwiliad 2012 o Adfer TG ar ôl Trychineb (DR) a Pharhad Busnes (BC)** | | | | | |
| DRBC A2<br>(a gyflawn wyd yn rhannol) | Atgyfnerthu gwaith cynllunio Parhad Busnes drwy wneud y canlynol:<br>• gweithredu cofrestr Parhad Busnes gorfforaethol gyffredinol y Bwrdd Iechyd sy'n cydlynu pob cynllun adrannol. Dylai'r broses hon gynnwys ymgysylltu gweithredol â phob adran<br>• egluro a neilltuo perchenogaeth o Barhad Busnes ar lefel adrannau gwasanaethau clinigol.<br>• datblygu a dogfennu cynlluniau Parhad Busnes systemau clinigol.<br>• cwblhau cynllun Parhad Busnes Fferylliaeth, lle nad yw'r adran ar 'safle heb fod ar gael' wedi'i chwblhau.<br>• llunio cynllun Parhad Busnes TG a strategaeth brofi Parhad Busnes yn derfynol a phrofi'r trefniadau ar ôl eu gweithredu er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad. | Mae cynlluniau parhad busnes wedi'u dogfennu a phrofion parhad busnes rheolaidd mewn unedau gweithredol wedi'u hymgorffori'n llawn yng nghyd-destun y strwythurau sefydliadol newydd. | • Bydd Parhad Busnes ar gyfer pob gwasanaeth yn cynnwys y broses ganlynol: cymeradwyo'r Fframwaith Parhad Busnes sydd wedi cael ei ddiweddaru'n ddiweddar fel y safon ar gyfer pob gwasanaeth o fewn pob Uned; bydd angen iddynt ddatblygu Cynlluniau Parhad Busnes ar gyfer eu priod wasanaethau bellach.<br>• Mae pob Uned wedi nodi swyddogion arweiniol Cynllunio Brys ac mae'r rhain bellach yn cynrychioli'r Unedau yn y Grŵp Strategaeth EPRR. At hynny, maent wedi nodi'r broses ar gyfer trafod a datblygu EPRR ym mhob un o'u Hunedau. Bydd timau rheoli'r priod Unedau yn gyfrifol am ddatblygu prosesau Parhad Busnes a chadw cofrestr fesul Uned, yn ogystal â chadw gyriant canolog ar gyfer mynediad at y Cynlluniau Parhad Busnes a hefyd sicrhau bod gan bob gwasanaeth 'gopïau caled' ar waith. | Rhagfyr 2017 | Joanne Davies (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth a Phartneriaethau) a Karen Jones<br>(Swyddog Cynllunio Brys) |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ budd bwriadedig | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion ar gyfer camau gweithredu parhaus o archwiliad 2012 o Adfer TG ar ôl Trychineb (DR) a Pharhad Busnes (BC)** | | | | | |
| DRBC A2<br>(a gyflawn wyd yn rhannol) | Atgyfnerthu gwaith cynllunio Parhad Busnes drwy wneud y canlynol:<br>• gweithredu cofrestru Parhad Busnes gorfforaethol gyffredinol ar gyfer y Bwrdd Iechyd sy'n cydlynu pob cynllun adrannol. Dylai'r broses hon gynnwys ymgysylltu gweithredol â phob adran<br>• egluro a neilltuo perchenogaeth o Barhad Busnes ar lefel adrannau gwasanaethau clinigol.<br>• datblygu a dogfennu cynlluniau Parhad Busnes systemau clinigol.<br>• cwblhau cynllun Parhad Busnes Fferylliaeth, lle nad yw'r adran ar 'safle heb fod ar gael' wedi'i chwblhau.<br>• llunio cynllun Parhad Busnes TG a strategaeth brofi Parhad Busnes yn derfynol a phrofi'r trefniadau ar ôl eu gweithredu er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad. | Mae cynlluniau parhad busnes wedi'u dogfennu a phrofion parhad busnes rheolaidd mewn unedau gweithredol wedi'u hymgorffori'n llawn yng nghyd-destun y strwythurau sefydliadol newydd. | • Fel rhan o'r rhaglen waith EPRR, y cam nesaf yw datblygu Cynlluniau Parhad Busnes ar gyfer pob gwasanaeth o fewn yr Unedau, gan ddefnyddio'r Fframwaith Parhad Busnes fel y safon. Nododd papur diweddar i'r Bwrdd fod angen adnoddau ychwanegol i gefnogi'r gwaith hwn a bu cytundeb mewn egwyddor i gynyddu nifer aelodau'r Tîm EPRR. Ar ôl penodiad y flaenoriaeth fydd gweithio gyda'r Uned i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Parhad Busnes ar gyfer y priod wasanaethau. Yn y cyfamser, byddwn yn cydgysylltu â'r Unedau o ran dechrau ar y broses hon. Bu oedi oherwydd y newidiadau sefydliadol a bu'n rhaid aros am i'r strwythurau islaw'r driwriaeth gael eu sefydlu, yn enwedig o ran swyddogion arweiniol. | Rhagfyr 2017 | Joanne Davies (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth a Phartneriaethau) a Karen Jones<br>(Swyddog Cynllunio Brys) |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/<br>budd bwriadedig | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion ar gyfer camau gweithredu parhaus o archwiliad 2012 o Adfer TG ar ôl Trychineb (DR) a Pharhad Busnes (BC)** | | | | | |
| DRBC A2<br>(a gyflawn wyd yn rhannol) | Atgyfnerthu gwaith cynllunio Parhad Busnes drwy wneud y canlynol:<br>• gweithredu cofrestr Parhad Busnes gorfforaethol gyffredinol y Bwrdd Iechyd sy'n cydlynu pob cynllun adrannol. Dylai'r broses hon gynnwys ymgysylltu gweithredol â phob adran<br>• egluro a neilltuo perchenogaeth o Barhad Busnes ar lefel adrannau gwasanaethau clinigol.<br>• datblygu a dogfennu cynlluniau Parhad Busnes systemau clinigol<br>• cwblhau cynllun Parhad Busnes Fferylliaeth, lle nad yw'r adran ar 'safle heb fod ar gael' wedi'i chwblhau.<br>• llunio cynllun Parhad Busnes TG a strategaeth brofi Parhad Busnes yn derfynol a phrofi'r trefniadau ar ôl eu gweithredu er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad. | Mae cynlluniau parhad busnes wedi'u dogfennu a phrofion parhad busnes rheolaidd mewn unedau gweithredol wedi'u hymgorffori'n llawn yng nghyd-destun y strwythurau sefydliadol newydd. | • Mae'r Fframwaith Parhad Busnes yn cynnwys fformat safonol, proses asesu risg a dadansoddiad o'r effaith ar fusnes; a'r cyfan fel rhan o'r broses o ddatblygu Parhad Busnes.<br>• Pan fydd wedi'i ddatblygu, bydd angen amserlen ar gyfer hyfforddiant codi ymwybyddiaeth a rhaglen ymarfer ar gyfer pob Uned.<br>• Mae'r Fframwaith Parhad Busnes hefyd yn cynnwys y pum maes allweddol ar gyfer lliniaru risg – staffio, safleoedd, cyfarpar, tarfu ar wasanaethau a gwaith cynnal a chadw, felly, fel enghraifft bydd Fferylliaeth ym mhob Uned yn rhoi Cynlluniau Parhad Busnes ar waith i fynd i'r afael â phob un o'r pum maes allweddol hyn. Mae'r archwiliad yn nodi bod yr adran ar safleoedd ar goll ar gyfer cynlluniau Parhad Busnes ar gyfer Fferylliaeth. | Rhagfyr 2017 | Joanne Davies (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth a Phartneriaethau) a Karen Jones<br>(Swyddog Cynllunio Brys) |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/<br>budd bwriadedig | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion ar gyfer camau gweithredu parhaus o adolygiad 2012 o Drefniadau Caldicott** | | | | | |
| AC1<br>(heb ei gyflawni eto) | Mae'r Gwarcheidwad Caldicott presennol yn uchel ei pharch ac yn adnabyddus iawn i staff a rheolwyr y Bwrdd Iechyd. Mae'n hanfodol bod y Bwrdd Iechyd yn rhoi trefniadau cynllunio olyniaeth effeithiol ar waith i reoli'r broses o benodi Gwarcheidwad Caldicott newydd pan fydd y Gwarcheidwad presennol yn ymddeol ym mis Rhagfyr 2012. Dylid ystyried penodi dirprwy Warcheidwad Caldicott a allai sicrhau parhad a chynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn absenoldeb y Gwarcheidwad Caldicott ond ni ddylai penderfyniadau Caldicott eu hunain gael eu dirprwyo a dylent barhau i gael eu gwneud gan y Gwarcheidwad. | Ceir trefniadau clir i sicrhau parhad ar gyfer diogelu cyfrinachedd gwybodaeth cleifion a defnyddwyr gwasanaethau a'i gwneud yn bosibl i wybodaeth gael ei rhannu'n briodol yn absenoldeb y Gwarcheidwad Caldicott, ac Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth. Gweler A3 2016 | Gweler A3 2016 | Cwblhawyd | |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ budd bwriadedig | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion ar gyfer camau gweithredu parhaus o adolygiad 2012 o Drefniadau Caldicott** | | | | | |
| AC3 (a gyflawn wyd yn rhannol) | Mae'r timau cymorth Caldicott presennol, sy'n cynnwys aelodau o'r timau Llywodraethu Gwybodaeth a diogelwch TG, yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a chyda'r Gwarcheidwad ond mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gan y timau hyn adnoddau digonol i ddarparu'r rhaglen hyfforddiant Caldicott a monitro cynnydd yn erbyn egwyddorion Caldicott. | Ceir tîm llywodraethu gwybodaeth sydd ag adnoddau priodol i gefnogi'r broses o gyflwyno Llywodraethu Gwybodaeth a rhoi sicrwydd ynglŷn â risgiau llywodraethu gwybodaeth. | Mae rôl newydd Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn cael ei phenodi ym mis Hydref 2016; bu hyn yn bosibl oherwydd ymddeoliad yn y tîm. Ar ôl y penodiad caiff strwythur y tîm ei adolygu er mwyn sicrhau ei bod yn addas at y diben. Caiff gofynion o ran adnoddau eu cyflwyno i'r Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth. | Ionawr 2017 ar gyfer yr adolygiad | Siân Richards (Pennaeth Cofnodion Iechyd) |
| AC6 (heb ei gyflawni eto) | Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'i gyfrifoldebau o ran Cyfrinachedd Gwybodaeth ac mae wedi nodi ei wybodaeth risg uchel am gleifion a staff ond mae angen iddo wneud rhagor i nodi a oes unrhyw ffynonellau eraill o wybodaeth y mae angen eu hasesu o dan Egwyddorion Caldicott. | Caiff data a ddelir o fewn dyfeisiau meddygol eu hystyried yn llawn o dan egwyddorion Caldicott.<br>**Gweler A4 2016** | A4 2016 uchod. | | |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/<br>budd bwriadedig | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion ar gyfer camau gweithredu parhaus o adolygiad 2012 o Drefniadau Caldicott** | | | | | |
| AC7<br>(a gyflawn wyd yn rhannol) | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cwblhau asesiad blynyddol ac mae cynnydd yn erbyn camau gweithredu yn cael ei nodi yn yr asesiad o Egwyddorion Caldicott ar Waith a dylai geisio ei sicrwydd mewnol ei hun ynglŷn â'r hunanasesiad hwn drwy archwiliad mewnol. | Mae trefniadau ar waith ar gyfer sicrwydd ynglŷn â hunanasesiad Egwyddorion Caldicott ar Waith ac mae'r gofynion o ran tystiolaeth i gyflwyno Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth wedi cael eu nodi. | Caiff y rhain eu cyflwyno i'r Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth newydd ei ffurfio a bydd archwilwyr mewnol yn parhau i'w hadolygu. | Parhaus | Siân Richards (Pennaeth Cofnodion Iechyd) |
| AC6<br>(a gyflawn wyd yn rhannol) | Dylai fod proses effeithiol o roi gwybod i'r Bwrdd ynglŷn â lefel y gydymffurfiaeth ag Egwyddorion Caldicott a dylai sgôr Egwyddorion Caldicott ar Waith gael ei gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn cydbwyso unrhyw achosion o ddiogelwch gwybodaeth a nodir yn yr Adroddiad Blynyddol. | Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn craffu'n effeithiol ac yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynglŷn â chydymffurfiaeth ag egwyddorion Caldicott a llywodraethu gwybodaeth a diogelwch. | Caiff y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth ei ddisodli gan y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth a bydd yn parhau i roi'r sicrwydd hwn. Bydd y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth yn atebol i'r Pwyllgor Archwilio. | Hydref 2016 | Gareth Westlake (Rheolwr Gwybodeg Busnes) |
| AC9<br>(heb ei gyflawni eto) | Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad yn effeithiol er mwyn llywio gwelliannau ond mae angen iddo wneud rhagor i nodi ffyrdd o feincnodi ei gynnydd yn erbyn sefydliadau tebyg. | Mae gwybodaeth am berfformiad a meincnodi yn llywio gwelliannau. | Bydd y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth yn adolygu cyfleoedd i feincnodi gweithgarwch Llywodraethu Gwybodaeth. | Ebrill 2017 | Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/<br>budd bwriadedig | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion ar gyfer camau gweithredu parhaus o archwiliad 2013 o wybodaeth wrth gefn** | | | | | |
| Gwg A1<br>(a gyflawn wyd yn rhannol) | Dylai newidiadau i'r gweithdrefnau gweithredu safonol, gan gynnwys newidiadau i'r trefniadau wrth gefn, gael eu cymeradwyo'n swyddogol er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r newidiadau a wnaed ac yn cytuno ar unrhyw drefniadau wrth gefn newydd, newidiadau mewn cyfrifoldebau ac ati. | Mae'r gwaith o ddatblygu catalog o wasanaethau SharePoint wedi'i gwblhau ac mae'n ategu'r trefniadau'n effeithiol. | Cwblhawyd | | Carl Mustad (Pennaeth Gweithrediadau TGCh) |
| Gwg A2<br>(a gyflawn wyd yn rhannol) | Dylai cofrestr ffurfiol o'r profion Adfer ar ôl Trychineb gael ei chynnal fel rhan o waith cynnal a chadw systemau rheolaidd (h.y. creu systemau profi) gael ei chreu i nodi unrhyw systemau nad ydynt yn cael eu profi o ran Adfer ar ôl Trychineb, o leiaf unwaith y flwyddyn. Yna dylid llunio amserlen ar gyfer profion Adfer ar ôl Trychineb rheolaidd ar y systemau hyn. | Mae gan y Bwrdd Iechyd gofrestr o'r profion Adfer ar ôl Trychineb a gynhelir, ac yn trefnu profion Adfer ar ôl Trychineb ar bob system allweddol ar sail asesiad risg. | Cwblhawyd | | Carl Mustad (Pennaeth Gweithrediadau TGCh) |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/<br>budd bwriadedig | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion ar gyfer camau gweithredu parhaus o archwiliad 2013 o wybodaeth wrth gefn** | | | | | |
| Gwg A3<br>(heb ei gyflawni eto) | Dylid cynnal adolygiad o’r dyfeisiau meddygol nas cwmpesir o fewn gweithdrefnau wrth gefn ac adfer y systemau TG. Mae’r dyfeisiau hyn hefyd yn risg bosibl o ran Caldicott (diogelwch data). | Ceir polisi copïau wrth gefn ar gyfer dyfeisiau meddygol gyda chanllawiau i’r staff. **Gweler A5 2016** | Gweler A5 2016 | | |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru